# ECO'R WYDDFA

Rhif 206 TACHWEDD 1994 Pris 25c.


# Onid her yw'r munud hwn?



*Yr Hybarch Elwyn Roberts, Archddiacon Bangor; Parchedig Tegid Roberts; Parchedig Ganon Glyndwr Williams a'r Parchedig Emrys Edwards.*

**Cafwyd gwasanaeth Diolchgarwch arbennig iawn yn Ninorwig brynhawn Sul, Hydref 16. Hwn oedd y gwasanaeth olaf i'w gynnal yn Eglwys y Santes Fair.**

Daeth cynulleidfa luosog iawn, dros 70 o bobol o bell ac agos, ynghyd i ddiolch am yr addoldy a fu yn fagwrfa ysbrydol dros ganrif a mwy.

Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Parchg Tegid Roberts, Clerig mewn gofal, gyda'r Parchg Ganon Glyndwr Williams, cyn-Ficer y plwyf, yn arwain y gweddïau, a'r Hybarch Elwyn Roberts, Archddiacon Bangor, yn pregethu.

Darllenwyd y gadwyn hon o englynion i gofio cau Eglwys y Santes Fair gan y Parchg Emrys Edwards, Caernarfon, a darllenwyd penillion gan Mr Hugh Jones, Deiniolen. Yr organyddes oedd Mrs Gwen Griffiths, Deiniolen. Roedd y trefniadau yng ngofal Glyn Tomos.

Er i'r holl achlysur ddwyn atgofion lu a pheri teimladau cymysg cafwyd gwasanaeth teilwng iawn o foliant a diolch. Diolchwyd i Dduw am y llu bendithion i ddaeth i ran yr aelodau trwy gyfrwng eu haddoliad yn Eglwys y Santes Fair, ac am wasanaeth ac ymroddiad y ffyddloniaid i'r Achos dros yr holl flynyddoedd.

Pwysleisiwyd mai cau adeilad oedd yr achlysur ac nid dod a'r Achos i ben. O hyn ymlaen bydd croeso mawr yn disgwyl aelodau Eglwys y Santes Fair yn Eglwys Crist, Llandinorwig, ac mae cynlluniau ar y gweill i addasu ystafell yn Eglwys y Plwyf a'i galw yn Gapel Mair. Yno y bydd holl drysorau'r 'Eglwys Fach' yn cael eu cadw.

Ar ddydd Sul, Hydref 30, am 5 o'r gloch, bydd y Parchg Tegid Roberts a'r cyfeillion yn Llandinorwig yn croesawu aelodau Eglwys y Santes Fair yno yn swyddogol. Edrychir ymlaen at weld nifer dda o'r aelodau yn bresennol er mwyn cychwyn ar bennod newydd yn eu hanes.

Gŵyl Ddiolch? Na! Gŵyl o ddüwch — y bedd
Heb wefr Diolchgarwch;
Ond i Grist, mwy yw tristwch
Hwyl Satan uwch llan yn llwch.

A hyn, pan fo llawenydd — y ddaear
Ddiwyd dros y dolydd;
Allor deg yw lliwiau'r dydd
Ar y bryniau a'r bronnydd.

Cain a hoyw fu'r cynhaeaf — yn hyfryd
Yn ei lifrai harddaf;
Caed Anian ar ei glanaf,
Hael yw rhwysg ffarwél yr haf.

Bu eisoes cefn-gwlad dan bwysau — yr ŷd:
Hyfrydwch yn ddiau
Oedd llawenydd y llannau
Yn un côr . . . A ninnau'n cau!

Y Demel ar fynd yn domen, — bydd maith
Anobaith anniben
Crefu am Wledd Sagrafen,
Gwaeth ergyd na'r byd ar ben!

Galar yn wir oedd gweled — y 'dry rot'
Yn dra rhwydd ar gerdded
Yn ei glog lidiog ar led,
Gellir dychmygu'r golled.

Torcalon i'r ffyddloniaid — yn y plwy,
Trallod plant amddifaid;
'Rôl hyder hir ildio raid
Hen nefoedd ein hynafiaid . .

. . Harri Wiliam, rhaid ffarwelio — â'i lwch,
Y clochydd diflino;
Di-baid ei ffyddlondeb o,
Rhinwedd gwerin ddiguro.

Yma, bu sêl Huw Tomos — a mynych
Gymwynas yn dangos
Yn glir mewn cymdeithas glòs
Dynerwch brawd yn aros.

Dinorwig, cei gladdedigaeth — y dom
Wedi hir wasanaeth;
Mawr yw'n siom, a'r hyn sy waeth —
Ias hiraros yr hiraeth.

Er y siom, ymresymwn — heddiw'n ddoeth,
Byddwn ddewr! Amheuwn
Ai diwedd hurt yw'r dydd hwn:
Na! Byth nid anobeithiwn.

Be sy waeth na hiraethu — yn ofer
Am nefoedd a ddarfu?
Down ymlaen fel dinam lu
A dal yn ffyddiog deulu.

Heno, na ddigalonnwn, — hen dro ffôl
Ildio'r Ffydd, a daliwn
Afael ar fri a gofiwn:
Onid her yw'r munud hwn?'

Y PARCHEDIG EMRYS EDWARDS, CAERNARFON

# ECO'R WYDDFA

**Rhif 206**
**TACHWEDD 1994**

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon.*

*Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru*

**SWYDDOGION A GOHEBWYR**

**GOLYGYDDOL**
**IWAN ROBERTS**
**LLEIFIOR, LLANRUG**
**(Ffôn: 675649)**
**JOHN PRITCHARD**
**CILFYNYDD, LLANBERIS**
**(Ffôn: 872390)**

**GOLYGYDD CHWARAEON**
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (0248) 670115
**DYDDIADUR Y MIS**
Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi, Deiniolen (870394)
**FFOTOGRAFFWR**
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (677263)
**DATBLYGU LLUNIAU**
Bryn Jones, Elidir, Allt Dewi, Bangor (0248) 353337 neu 871925
**TREFNYDD HYSBYSEBION**
John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (675605)
**TREFNYDD BWNDELU**
Siân Gwenfron Hughes, Derlwyn, Ffordd yr Orsaf, Llanrug: (676846)
Ann Gibbins, Lodj Plas Tirion, Pontrug (673696)
**TREFNYDD ARIANNOL**
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)
**TREFNYDD GWERTHIANT POST**
Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach, Llanrug (650200)
**TREFNYDD PLYGU**
Sioned Roberts (650570)

**GOHEBWYR PENTREFI**
**Dyma'r bobl i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd.**

**BETHEL:** Geraint Elis, Cilgeran (0248 670726)
**BRYNREFAIL:** Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed (870580)
**CAEATHRO:** Clive James, Hafan, Bryn Gwna (677438)
**CEUNANT:** Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)
**CWM-Y-GLO:** Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
**DEINIOLEN:** W. O. Williams, 6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)
**DINORWIG:** Glyn Tomos, Pen y Bwlch, Dinorwig (870576)
**LLANBERIS:** Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri (870491)
**LLANRUG:** Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn (675384)
**NANT PERIS:** Elwyn Searell Jones, Dwyfor (870440)
**PENISARWAUN:** Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)
**TAN-Y-COED:** Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn (872276)
**WAUNFAWR:** Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)


**Y RHIFYN NESAF**
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
**NOS IAU, RHAGFYR 1**
Deunydd i law'r golygyddion perthnasol
**NOS LUN, TACHWEDD 21**
os gwelwch yn dda

# DYDDIAU A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

**Trefnydd Plygu: Miss Sioned Roberts, Pantafon, Waunfawr, Ffôn: 650570.**

| RHIFYN | DYDDIAD PLYGU | BLE? | CYSYLLTU Â | RHIF FFÔN |
|---|---|---|---|---|
| RHAGFYR | RHAGFYR 1 | CAEATHRO | Mr Clive James | 677438 |

**Diolch i'r cysylltwyr am eu cefnogaeth.**

# Llythyrau

## Chwarter Canrif o Wasanaeth

*Annwyl Olygydd,*

*Bydd 1996 yn flwyddyn fawr yn hanes Mudiad Ysgolion Meithrin gan y bydd yn dathlu 25 mlynedd ers ei sefydlu ym 1971. Mae trefniadau uchelgeisiol ar y gweill eisoes i ddathlu gorchest a llwyddiant y Mudiad yn genedlaethol. Ymhlith y gweithgareddau bwriedir cyhoeddi llyfr yn olrhain yr hanes rhyfeddol ar lefel Cylch, Rhanbarth, Sir, a Chenedlaethol, ledled Cymru. Llyfr o luniau a dyfyniadau perthnasol yw'r nod ac mae'r ymchwil a'r paratoi yn mynd yn ei flaen yn reit hwylus. Fodd bynnag, mae rhai bylchau pwysig yn dod i'r amlwg bellach, yn arbennig felly ar y lefel Sirol a Rhanbarthol.*

*Mae'n siŵr i nifer dda o'ch darllenwyr wasanaethu fel Cadeiryddion, Ysgrifenyddion neu Drysoryddion ar bwyllgorau o'r fath ac iddynt drefnu gweithgareddau hwyliog boed rali, gorymdaith, protest, ffair, cyngerdd neu ddigwyddiad arall y dylid ei goffáu mewn cyfrol o'r fath. Mae'n siŵr hefyd fod lluniau o bwyllgorau a digwyddiadau o'r fath yn llechu mewn cypyrddau ac atigau ledled Cymru.*

*Apêl yw hon ar iddynt fynd i chwilio amdanynt ar fyrder a'u benthyg ar gyfer paratoi'r gyfrol. Byddai'n arbennig o fuddiol petai modd enwi'r wynebau yn y llun a chynnwys pwt o eglurhad neu stori bersonol i gydfynd â'r llun.*

*Gobeithio y bydd caredigion y Mudiad yn ymateb yn frwdfrydig a phrydlon yn ôl eu harfer oherwydd mae Mudiad Ysgolion Meithrin yn haeddu cyfrol deilwng o'i gyfraniad yn hanes Cymru'r ugeinfed ganrif.*

*Yn gywir,*
*CATRIN STEVENS*
*10 Ffordd Bwrw*
*CASLLWCHWR*
*Gorllewin Morgannwg*

## GOFAL GOLWG Gwynedd

*Annwyl Ddarllenwyr,*

*Hoffwn wneud apêl am wirfoddolwyr i fod o gymorth i unigolion â nam golwg yn eich bro.*

*Mae tasgau gwahanol i wirfoddolwyr eu gwneud, sy'n cynnwys:*

- ★ *darllen gohebiaeth;*
- ★ *ysgrifennu llythyrau, cardiau penblwydd, a.y.b.;*
- ★ *mynd a pherson dall, neu rannol ddall, i weld perthnasau yn yr ysbyty;*
- ★ *casglu prescripsiwn.*

*Mae hyfforddiant yn cael ei gynnig, ac yn ogystal â hyn bydd costau yn cael eu taelu, e.e. costau teithio fydd ynghlwm â'r gwirfoddoli.*

*Os oes unrhyw un awydd cael sgwrs bellach, buaswn yn falch pe baech yn cysylltu â mi yn:*

***Canolfan Adnoddau***
***Gofal Golwg Gwynedd***
***325 Stryd Fawr***
***Bangor***
***(0248) 353241***

*Yn gywir,*
*SHÂN LLOYD WILLIAMS*
*Cyd-gysylltydd y gwasanaeth.*

## HOME GUARD LLANRUG

*Annwyl Olygydd,*

*Roeddwn yn falch o weld y llun o'r Home Guard a Band Llanrug yn rhifyn mis Medi o'r Eco (tudalen 22).*

*Yr oeddech yn holi am y dynion yn y llun. Gwn fod fy niweddar ŵr, Arthur William Land, a'i dad a'i frawd ynddo. Y pumed o'r chwith yn yr ail res o'r top yn y llun yw fy ngŵr.*

*Roedd ei dad, William Thomas Land a'i frawd, James Land, yn yr Home Guard hefyd. Roeddent yn byw yn Bryn Beuno, Llanrug. Mae arnaf ofn fod y llun braidd yn fychan i mi adnabod y gweddill.*

*Yn gywir,*
*GWYNETH LAND*
*Cae Rhos, Wernfields, Bangor.*

**Cefnogwch ein Hysbysebwyr**

## MERCHED Y CÔR AR Y BWRDD!

*Annwyl Olygydd,*

*Dim ond nodyn i ddiolch i aelodau Côr Meibion Dyffryn Peris am ddod i'n diddori yn ddiweddar.*

*Cawsom noson i'w chofio yn eu cwmni.*

*Diolch iddynt hefyd am ddod a'u gwragedd hefo nhw — roeddent yn 'donic' i hen fôi fel fi ar ddiwedd y noson — roeddent ar eu gorau ac yn dawnsio ar ben y byrddau.*

*Da iawn chi hogia — a gwell fyth genod!*

*Diolch yn fawr,*
*ELIS JONES*
*Ysgol Twm o'r Nant*
*Dinbych, Clwyd*


**CHIROPODIST**
**Gwasanaeth yn eich Cartref**
**E. Ll. Parry**
**M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.**
**57 Glanffynnon**
**LLANRUG**
**Ffôn:**
**Caernarfon**
**675754**

**ERIC JONES**
**PENISARWAUN**
**Ffôn: 872421**
★ Prisiau rhesymol
★ Spreio tu mewn a thu allan
★ Estimates am ddim
**PEINTIO ● PAPURO ● MÂN ATGYWEIRIO**

**GWÊL Y LLYN**

**Lake View Hotel**
**LLANBERIS**
**870422**
**Prydau Arbennig ar gyfer partïon**
Byddai perchnogion a staff y gwesty yn falch o'ch croesawu ar gyfer dathliadau o bob math.

# RHANNU ETO!



*Mary Wyn Jones yn cyflwyno siec o £100 ar ran Cantorion Elidir i Mr John Grisdale.*

Aeth Cantorion Elidir â'r sioe gerdd 'O Gaethiwed i Ryddid' i Theatr Gwynedd yn ddiweddar, a chafwyd cynulleidfa dda ar y ddwy noson.

Yn dilyn llwyddiant y perfformiadau cyflwynwyd £100 i Ysgol Brynrefail. Cyflwynodd Mary Wyn Jones y siec ar ran y cantorion i Mr John Grisdale, prifathro'r Ysgol. Ffordd o gydnabod cyfraniad dawnswyr o'r Ysgol at lwyddiant y sioe oedd hyn.



*Robin Jones, arweinydd Cantorion Elidir, yn cyflwyno siec o £200 i Gronfa Steffan Price Jones.*

Cyflwynwyd hefyd siec o £200 tuag at Gronfa Steffan Price Jones o Lanrug. Oherwydd salwch mae gan Steffan anawsterau dysgu dwys. Ym mis Ionawr bydd yn mynd i gael triniaeth mewn uned arbennig yng Ngwlad yr Haf. Mae'n debyg y bydd raid iddo fynychu'r uned hon sawl gwaith yn ystod y blynyddoedd nesaf. Dymunwn yn dda i Steffan, a diolch unwaith eto i Gantorion Elidir a'u cyfeillion am eu haelioni parod.

**BYDD Y DDAU RIFYN NESAF O'R ECO YN CYNNWYS HYSBYSEBION Y NADOLIG.**

**Os ydych am hysbysebu cysylltwch ar unwaith a'n Trefnydd Hysbysebion (0286) 675605**

## YMCHWIL Y GALON

**Cynhelir FFAIR HYDREF Cangen Caernarfon a'r Cylch o Apêl Ymchwil y Galon ar nos Iau, 3 Tachwedd, yng Ngwesty'r Royal, Caernarfon am 7 o'r gloch.**

**Mae cardiau Nadolig Ymchwil y Galon yn awr ar gael gan Mrs Mai Parry, 2 Bryn Heli, Ffordd Glanfynnon, Llanrug (0286) 674385.**

# SEFYLL (neu orwedd) I ACHUB CEFN GWLAD

**Cerdd i gofio am fwriad y bonwr Dei Tomos i orwedd o flaen 'bulldozer' y Bwrdd Dŵr os y byddant yn cael caniatâd i adeiladu maes parcio ym Mwlch Llanberis:**

**Am orwedd i lawr yn arwr mae'r gŵr**
**O flaen 'bulldozer' o eiddo'r Bwrdd Dŵr,**
**Cans mae o am fynnu gwneud ei farc**
**I rwystro maes parcio yn y Parc;**
**Aelod o'r 'Quango' — sydd i rai yn sarhad**
**Yw Dei wrth reswm, achubwr cefn gwlad;**
**Ond wele mae'n herio'n y *Daily Post***
**Fwriadau'r Bwrdd Dŵr — ac arbed cost**
**Fydd wrth greu maes parcio, er diogelwch pob gŵr**
**Sy'n aelod mor werthfawr o staff y Bwrdd Dŵr.**

**'Dim parcio'n y Pass, dim ffiars o beryg!'**
**Medd Tomos yn bendant a bron mewn perlewyg,**
**'Ac os aiff olwynion y JCB**
**Ryw ddydd dros fy stumog a'm coesau i,**
**A'r dreifar efallai a'i ddirmygus wên**
**Yn dreifio ei beiriant dros fy marfog ên,**
**Fe wn, bryd hynny, y bydd teilwn goffhad**
**I mi'n *Y Goleuad* am achub cefn gwlad.**

**Ap Prentis**

# CLWB ERYRI

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor newydd ar nos Iau, 6 Hydref, yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis. Estynnwyd croeso i dau aelod newydd, sef Dafydd Ellis, Brynrefail, a Geraint Lloyd Owen o Ffrwd Cae Du, Bontnewydd.

Cafwyd anerchiad diddan a doniol gan y llywydd newydd, Evan Parry, Ceunant, ar gymeriadau a nodweddion unigryw pentref nid anenwog y Garn.

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Wyre Thomas, Waunfawr, Is-lywydd y Clwb; a diolchwyd i'r siaradwr gan Rol Williams, eto o'r Waun.

Yn ystod y cyfarfod mynegodd y llywydd ei lawenydd o weld Ieuan Ellis Jones ac Iolo Huws-Roberts wedi cael gwellhad o'u anhwylderau a chydymdeimlwyd â Cledwyn Williams, Llanrug, a gollodd ei chwaer yn ddiweddar.

Llongyfarchwyd prydydd y Clwb, Gwynn Davies, Waunfawr, ar ennil traean o Goron yr Eisteddfod Genedlaethol Nedd a'r Cyffiniau, a hynny ar y cyfrif cyntaf.

Dyrchafwyd un aelod er anrhydedd eleni, sef Cledwyn Williams a roddodd deyrngarwch a chyfraniad dihafal i'r Clwb am flynyddoedd meithion.

Bydd ail gyfarfod y Clwb ar nos Wener, 4 Tachwedd, am 7.30 o'r gloch yn yr un gwesty, pryd y ceir anerchiad gan Eurwyn Lloyd Evans, Llanrug, gyda J. Norman Davies, Bontnewydd, yn cadeirio.

# CÔR MEIBION DYFFRYN PERIS

Ar nos Sadwrn, 17 Medi, cafwyd noson ddifyr iawn yng nghwmni Doreen Lewis, y gantores canu-gwlad. Trefnwyd raffl, gan Roy Griffith, a'r enillwyr oedd Ted Morris, Beverley, Jimmy James, Beryl Jones, Ned Sir Fôn, John Williams, Tudur, Mrs Jones Dolbadarn, Gwilym Owen, a Maldwyn.

Nos Iau, 22 Medi, bu'r Côr yn diddanu'r ymwelwyr a ddaw yn gyson i Westy'r Fictoria, Llanberis.

Braint fawr i'r Côr, ar nos Sadwrn, 8 Hydref, oedd cael rhannu llwyfan gyda Hogia'r Wyddfa yng ngwesty Oriel House yn Llanelwy. Roedd y neuadd yn orlawn a chafwyd noson o ganu da.


**Am Wasanaeth Fframio Lluniau Tystysgrifau Tapestri am brisiau rhesymol**
**ELWYN PRITCHARD**
**Parc Padarn, Llanberis**
Ar agor Llun – Sadwrn 10.00 – 4.30
**Ffôn: Llanberis 870922**

**Royal Victoria Hotel**
**LLANBERIS**
Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau, Partïon, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig
Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau
Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul
Cwrw Felin Foel
**Ffôn: Llanberis 870253**

*Cwmni* **TARIAN** *Cyf.*
Yswiriant Car neu Yswiriant Tŷ
Gadewch i ni Roi pris i chi.
**TARIAN**
**6 Stryd Bangor, Caernarfon**
**Ffôn: (0286) 677787**

# CHWILOTA



## SŴYN Y DYN HYSBYS A'R LLADD Â'R GWENWYN

*Y mis hwn dyma hanes llofruddiaeth o ardal Deiniolen a ddigwyddodd bron i ganrif a hanner yn ôl. Mae aelodau dosbarth WEA Dinorwig eisoes yn gwybod yr hanes, ond credaf ei bod yn stori hollol ddieithr i'r mwyafrif helaeth o drigolion y fro. Achosodd gryn gynnwrf ym mhentref Ebenezer (fel yr oedd y pryd hynny), ond ni chredaf i'r hanes aros ar gof gwerin i'r un graddau â stori llofruddiaeth Fron Chwith neu lofruddiaeth y Gwyddel o Farics Chwarel Glynrhonwy. Tybed a glywodd unrhyw un o'r darllenwyr y stori o'r blaen? Tybed oes unrhyw un all daflu rhywfaint o oleuni ar yr hyn ddigwyddod i'r chwaer a'r ddau frawd ar ôl yr achos trist? Ond ymlaen â'r hanes . . .*

**Am bum munud wedi un ar ddeg ar fore Sadwrn, Mehefin 12fed, 1855, bu farw Richard Williams, chwarelwr, yn ei gartref, Bryngwyn, Llanddeiniolen. Roedd y farwolaeth yn gychwyn cadwyn o ddigwyddiadau a achosodd ferw gwyllt yn yr ardal am y mis nesaf, ac a adawodd rhai cwestiynau heb eu hateb hyd y dydd heddiw.**

**Tyddyn bychan yw'r Bryngwyn wedi ei naddu o weundir garregog a gwlyb rhwng llethrau Moel Rhiwen a'r Drosgol i'r gogledd-orllewin, a'r Elidir Fach i'r de-ddwyrain. Heb fod ymhell o'r tŷ mae afon Marchlyn Bach yn llifo'n chwyrn ar ei thaith i lawr y llethrau i Afon Galedffrwd a phentref Ebenezer (Deiniolen erbyn heddiw). Roedd nifer o fân dyddynnod eraill yn y cyffiniau — Tan-y-marchlyn, Cerrig-y-nyth, Tal-y-waen, Blaen Afon, Gorlan Uchaf — y cyfan wedi eu hadeiladu yn ystod hanner cyntaf y ganrif ddiwethaf pan oedd pobl yn heidio i ucheldiroedd Arfon i chwilio am waith yn y chwareli llechi.**

Priodwyd Richard Williams o Landdeiniolen ag Elinor Jones o'r un plwyf yn eglwys Llanddeiniolen ar y deuddegfed o Fawrth, 1834. Ni allai'r un o'r ddau arwyddo eu henwau. Felly hefyd y tystion i'r briodas, sef Edward Lloyd ac Elisabeth Prichard. Nid oes sicrwydd pendant ble roeddent yn byw ar ôl priodi, ond mae'n ddiddorol nodi fod cyfeiriad at adeilad Bryngwyn tua 1837 (*Hanes Gwaun Gynfi*). Mae Cyfrifiad 1851 yn dangos fod y teulu i gyd wedi eu geni o fewn ffiniau plwyf Llanddeinolen. Nid 'pobol ddŵad' oeddent felly.

Fel i'r mwyafrif o dyddynwyr-chwarelwyr y fro roedd bywyd yn galed. Gweithiai'r tad a'r meibion yn y chwarel gydol yr wythnos (gan gynnwys bore Sadwrn), gan adael y fam a'r merched i ofalu am waith y tŷ a'r tyddyn. Fel arfer oredd tyddyn bychan yn cynnal un neu ddwy o fuchod, mochyn ac ychydig ieir. Tua 1843 cafodd Richard Williams ddamwain yn Chwarel Dinorwig pan syrthiodd wagen arno. Bu'n gaeth i'w wely am saith mis o ganlyniad i'r ddamwain ac ysbeidiol yn unig oedd ei gyfnodau o weithio wedi hynny. Pan oedd yn abl i weithio, câi gyflog o tua deg swllt yr wythnos. Yn 1855 roedd tri o blant yn byw gartref: Dorothy (20 oed) y ferch hynaf; a'i brodyr David (17 oed) ac Edward (15 oed). Roedd y ddau fachgen eisoes yn gweithio yn y chwarel, ac yn ennill rhyngddynt ddeuddeg swllt yr wythnos. Roedd eu hamgylchiadau byw yn anodd iawn, a bu'n rhaid gwerthu un o'r ddwy fuwch i dalu costau claddu Elinor pan fu farw ym mis Ionawr 1855.

Mae'n ymddangos, yn ôl adroddiadau diweddarach, nad oedd y teulu'n byw yn gytûn iawn, ac nad oedd fawr o gyd-dynnu rhyngddynt â'u cymdogion chwaith. Roedd ryw amheuaeth ynglŷn â marwolaeth Elinor, ond na chafwyd digon o dystiolaeth i wneud ymchwiliad llawn. Yn y gymdogaeth edrychid arni fel gwrach. Yn ôl un sylwebydd, *'a person skilled in charms and enchantments'.* Fe'i claddwyd ym mynwent y plwyf, Llanddeiniolen.

Dorothy oedd bellach yn gofalu am y tŷ ac yn paratoi bwyd i'w thad a'i brodyr.

Yn ystod yr wythnos cyn ei farwolaeth bu Richard Williams yn cwyno'n arw o boenau yn ei gylla. Er hynny, gallodd lusgo i'r chwarel bob dydd nes i'w salwch fynd yn drech nag ef, a'i orfodi i aros gartref ar y dydd Gwener. Cwynai o boenau yn ei stumog, ac yr oedd yn rhynllyd drwy'r dydd. Bu'n bwyta ychydig o bosel triog wedi ei baratoi gan ei ferch. Tua chwech yr hwyr daeth y ddau fachgen gartref o'r chwarel, ac eisteddodd y teulu wrth y bwrdd i fwyta'r 'swper chwarel' — ychydig dafelli o fara wedi eu berwi mewn llaeth enwyn. Rhoddodd Richard Williams lwyaid o driog yn ei fwyd, ond chwydodd yn fuan wedyn, ac aeth i'w wely. Yn ddiweddarach y noson honno, gofynnodd am fwy o'r bara llaeth a thriog, gyda blodau camomile i mewn ynddo. Er iddo fedru bwyta peth o'r bwyd, chwydodd eto. Parhaodd i chwydu gydol y noson, a'i feddwl erbyn hyn yn bur gythryblus. Am dri o'r gloch fore Sadwrn, dechreuodd chwydu gwaed.

Am bedwar o'r gloch fore Sadwrn cychwynnodd Edward, y mab ieuengaf, am ei waith yn y chwarel. Ni ddaeth yn ôl i'r Bryngwyn hyd ddeg o'r gloch y bore, ac erbyn hynny roedd cyflwr ei dad wedi gwaethygu'n arw. Yn wir, roedd David, y brawd arall wedi cychwyn o'r tŷ i chwilio am gymorth ers chwech y bore. Cafodd ei wrthod gan ddwy gymdoges; doess neb gartref mewn tŷ arall, ac erbyn iddo gael Edward Lloyd (perthynas teuluol, a thyst ar briodas ei rieni) i ddod yn ôl i'r Bryngwyn, roedd Richard Williams wedi marw. Erbyn hyn, roedd Edward hefyd wedi mynd i mofyn help John Ellis i Glan-y-gors, ond erbyn iddo yntau gyrraedd, roedd yn rhy hwyr.

Roedd Edward Lloyd a John Ellis yn y Bryngwyn o fewn ychydig amser i farw Richard Williams. Pa un ohonynt tybed a benderfynodd fod amheuaeth ynglŷn â'i farwolaeth?

Agorwyd y cwest i farwolaeth Richard Williams ar y dydd Llun canlynol, a galwyd am wasanaeth dau lawfeddyg o Gaernarfon i gynnal y *post mortem:* Watkin William Roberts ac R. Lloyd Williams. Mae traddodiad yn ardal Deiniolen yn adrodd mai ar lechfaen wastad ar glawdd tu allan i dŷ'r Bryngwyn y cynhaliwyd y *post mortem*. Anfonwyd stumog a choluddion Richard Williams i Lerpwl i'w harchwilio gan gemegydd enwog o'r enw James Sheridan Muspratt.

Yn y cwest, a gynhaliwyd gan E. G. Powell, y crwner, cafwyd gwybodaeth gan Dorothy, David ac Edward ynglŷn â phatrwm bwyta'r teulu yn ystod y dydd Gwener cyn marwolaeth eu tad, ac am y digwyddiadau fore Sadwrn pan geisiwyd cymorth gan wahanol gymdogion. Yna, cyflwynodd Dorothy dystiolaeth ychwanegol gerbron y crwner. Yng ngeiriau newyddiadurwr oedd yn bresennol ar y pryd: '. . . *an oblong piece of parchmen covered on one side by writing. Some of the characters were of hieroglyphic description, others were ordinary letters, jumbled together; in fact a conglomeration of consonants and a connection of vowels, forming no words whatsoever, whilst here and there could be detected the words 'marw',*


**Wavell Roberts**
CIGYDD
London House
LLANRUG
Ffôn: C'fon 673574
*PEN CIGYDD Y FRO*
Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!



**GORSAF BETROL**
POWER
**BERAN**
DEINIOLEN.
Ffôn: Llanberis 871521
Ar agor 7 a.m. – 9 p.m. bob diwrnod
Petrol ● Disel ● Nwy Calor ● Glo
Cylchgronnau ● Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd ● Wyau
Nwyddau Groser ● Melysion
Cyfle i ennill £10 bob wythnos i bawb sy'n prynu petrol



**Y Bistro**
43 - 45
Stryd Fawr
LLANBERIS. Ffôn 871278
*Rhwng Ynys Môn a Pharis*
*Does unlle gwell i'w dewis*
*Am bryd o fwyd, waeth ble y bo,*
*Na'r Bistro yn Llanberis*

*'Holy Ghost', 'angel' and a few more.'* Honnai Dorothy mai sŵyn oedd y darn memrwn a brynwyd gan ei thad oddi ar ddyn hysbys (*'some professor of witchraft'*) o Fangor. Adroddodd fod ei thad wedi benthyca arian oddi ar rai pobl neilltuol yn yr ardal ynglŷn â diogelu hawliau ar diroedd. Roedd y bobl hyn yn pwyso am ad-dalu'r ddyled, ac yn bygwth Richard Williams. Prynodd yntau y sŵyn gan y dyn hysbys o Fangor i'w chadw rhag hawlio'r tiroedd na'r arian.

Gohiriwyd y cwest tan y dydd Iau olaf o'r mis.

Aeth pythefnos o amser heibio nes cwblhau'r cwest gohiriedig. Gellir dychmygu'r straeon a'r sibrydion yn ardal Ebenezer ac yn Chwarel Dinorwig yn y cyfnod hwn. Roedd chwarelwr tlawd wedi marw o boenau difrifol yn ei stumog. Roedd ei wraig, a gyfrifid yn wrach, wedi marw rai misoedd ynghynt dan amgylchiadau amheus. Doedd y teulu ddim ar delerau da â'u cymdogion, ac yr oedd dwy o'r rheini wedi gwrthod cymorth i'r mab hynaf ar y bore y bu farw'r tad. Roedd posibilrwydd fod y tad mewn dyled a'i fod wedi ei fygwth, ac yr oedd yr ferch hynaf wedi mynd ar ei llw yn honni fod ei thad wedi pryn sŵyn gan ddyn hysbys i gadw'r bleiddiaid o'r drws. Byddai 'tabloids' ein dyddiau ni wedi gwirioni â'r fath stori!

Ar ddydd Iau, 30ain o Fehefin, yn Nhafarn y Wellington, Ebenezer, ail-agorwyd y cwest i farwolaeth Richard Williams. Pobl leol oedd y rheithgor, a Thomas Morris, dilledydd o Ebenezer, oedd y fforman.

Roedd James Sheridan Muspratt, F.R.S., Athro Cemeg o Lerpwl, yn bresennol i roi ei dystiolaeth. Nid oedd unrhyw amheuaeth ynglŷn â'r modd y bu farw Richard Williams — fe'i lladdwyd gan y gwenwyn 'arsenic'. Yn wir, roedd dwywaith cymaint o arsenic yn ei stumog a'i goluddion ag oedd angen i ladd dyn. Ond o ble roedd yr arsenic wedi ei brynu? A phwy a roddodd yr arsenic iddo?

Roedd tystiolaeth Dorothy ac Edward yn debyg iawn. Roedd y ddau yn honni fod y bara llaeth wedi ei osod ar y bwrdd mewn un ddysgl, a bod pawb wedi helpu ei hun ohoni. Roedd Richard Williams ei hun wedi ychwanegu triog i'w ddysgl ef. Roedd tystiolaeth David yn wahanol. Mynnai ef fod ei chwaer wedi rhoi y bara llaeth mewn pedair dysgl unigol cyn eu cario at y bwrdd bwyd. Cytunodd Dorothy iddi gymysgu



*Dafydd Whiteside Thomas yn cael ei gadeirio yn eisteddfod bentref Llanrug. Enillodd y gadair am yr erthygl sy'n ymddangos yn y golofn 'Chwilota' yn y rhifyn hwn o'r Eco.*

triog â'r hyn oedd yn weddill o'r bara llaeth yn hwyrach yn y noson, ei ail-dwymo, ac ychwanegu blodau camomile ato 'ar gais ei thad'. Roedd y blodau camomile yn cael eu cadw'n sych mewn drôr yn y cwpwrdd. Roeddynt yn gytûn am yr hyn ddigwyddodd am weddill nos Wener a bore Sadwrn.

Cafwyd ar ddeall yn y cwest nad oedd gan Richard Williams unrhyw arian, ac mai ei unig eiddo oedd yr ychydig ddodrefn yn y tŷ. Doedd o chwaith ddim yn aelod o unrhyw Glwb na Chymdeithas Gyfeillgar, a bu'n rhaid talu'r costau claddu yn rhannol gan y plwyf a gan offrwm y tŷ.

Galwyd nifer o dystion eraill. Ni ddaeth neb ymlaen i ddweud fod unrhyw aelod o'r teulu wedi eu gweld yn prynu arsenic. Ni ddaeth neb ymlaen i ddweud fod Richard Williams mewn dyled iddynt. Ychydig iawn o wybodaeth ychwanegol a gafwyd gan y tystion. Galwyd ar Gwen Prichard, Blaenafon, i gadarnhau iddi weld Richard Williams yn fyw ar y dydd Gwener. Dywedodd Margaret Ellis, Glan-y-gors iddi weld Richard Williams ar y dydd Mercher, a'i fod yn cwyno o boenau yn ei stumog. Anfonodd hithau lefrith i'r Bryn-gwyn ar y dydd Gwener. Dydd Iau oedd y tro olaf i John Ellis ei weld yn fyw. Y dystiolaeth fwyaf diddorol oedd eiddo Robert Jones, Penparciau. Dywedodd iddo ymweld â'r Bryngwyn ar y nos Iau i geisio gwerthu dafad i Richard Williams. Roedd Richard a David, y mab hynaf, wrthi'n adeiladu wal. Dywedodd Richard na allai fforddio prynu'r ddafad, ond yn ystod y sgwrsio, digwyddodd Robert Jones ofyn i David pam na fu yn y chwarel y diwrnod hwnnw. Roedd yn amlwg nad oedd y tad yn ymwybodol o hyn, a gwylltiodd yn arw.

Edward Lloyd oedd y tyst olaf. Cadarnhaodd iddo gael ei alw i'r Bryngwyn ar y bore Sadwrn, ond fod Richard Williams eisoes wedi marw erbyn iddo gyrraedd. Ychwanegodd hefyd nad oedd y teulu yn byw ar delerau da iawn â'i gilydd.

Mae'n ddiddorol nodi fod y ddau frawd wedi creu argraff bur wahanol i'w gilydd ar y rhai oedd yn bresennol yn y cwest. Disgrifit Edward Williams fel *'a timid and delicate boy'* — yn cytuno â phopeth a ddywedai ei chwaer. Ond roedd David Williams yn bur wahanol: *'this witness gave his evidence in a very unsatisfactory manner. He contradicted himself repeatedly and imparted a dubious character to all he said'.*

Bu'r rheithgor yn ystyried eu dyfarniad am hanner awr. Eu dyfarniad oedd fod Dorothy Williams yn fwriadol wedi llofruddio ei thad â gwenwyn. Cymerwyd Dorothy i'r ddalfa, a'i chertio i garchar Caernarfon *'earnestly protesting her innocence'.* Oherwydd yr amgylchiadau, cynigiwyd llety yn Ebenezer i'r ddau frawd gan rai o aelodau'r rheithgor. Roedd Edward yn ddigon bodlon i dderbyn, ond roedd David yn mynnu nad oedd ganddo unrhyw fath o ofn dychwelyd i'r cartref.

Roedd golygyddol y *North Wales Chronicle* (2 Gorffennaf 1855) yn feirniadol iawn o ddyfarniad rheithgor y cwest yn Ebenezer: *'We have received several communications animadverting very strongly on the conduct of the jury in coming to so strange a conclusion as their verdict indicates; and we must say we think, from perusal of the evidence, that the unfortunate creature has been very badly used. And that unless some criminative evidence should not turn up, no grand jury in the county, and no judge, on looking over the depositions would send her to the tender mercies of a petty jurry, which might be composed of wiseacres of such calibre of intellect as those who sat in judgement upon her at Llanbabo.'* Mae'n ddiddorol sylwi ar yr enw 'Llanbabo' yn cael ei ddefnyddio yma; enw a oedd yn yr amser hwnnw yn derm eithaf dirmygus am bentref Ebenezer, ac yn enw sy'n parhau i gael ei ddefnyddio ar lafar hyd heddiw am bentref presennol Deiniolen.

Gwir a ddywedodd yr erthygl olygyddol. Yn ddiweddarach y mis Gorffennaf hwnnw, yn y llys yng Nghaernarfon, penderfynwyd fod dyfarniad rheithgor cwest Ebenezer yn rhannol gywir: fod Richard Williams wedi marw o'r gwenwyn arsenic. Ond nid oedd hawl gan y cwest i wneud cyhuddiadau yn erbyn person am y llofruddiaeth honedig, ac felly, taflwyd yr achos allan. Ddaeth yr awdurdodau ddim ag achos yn erbyn Dorothy oherwydd diffyg tystiolaeth bendant. Mewn gwirionedd, gadawyd Dorothy druan mewn sefyllfa annioddefol: ni chafwyd hi'n euog nac yn ddieuog o lofruddio ei thad, ond eto ar y llaw arall, roedd hi'n parhau'n gyhuddiedig o lofruddiaeth gan reithgor Ebenezer. Diweddglo heb ddiwedd yw hanes y gwenwyno yn Ebenezer.

Er fod teulu'r Bryngwyn mor dlawd fel y bu'n rhaid cael arian o'r plwyf i gladdu Richard Williams, eto'i gyd methais â darganfod cofnod o'i gladdu yng nghofrestrau plwyf Llanddeiniolen. Ble claddwyd ef?

Beth ddigwyddodd i'r sŵyn a gyflwynwyd fel tystiolaeth, a phwy oedd y dyn hysbys o Fangor? A fu ymgais i ddarganfod os bu bygwth ar Richard Williams, ac os bu, gan bwy?

Beth fu hanes Dorothy a'i brodyr? A oedd croeso iddi'n ôl yn Ebenezer a'r ardalwyr wedi ei chyhuddo o lofruddiaeth? Gadawn i olygydd y *North Wales Chronicle* (28 Gorffennaf 1855) grynhoi ei sefyllfa: *'What is to become of the young woman — possibly entirely innocent — whilst this suspicion is legally suffered to rest upon her? Who will employ her or have anything to do with her, until she shall have been publicly cleared from all participation of the fatal deed? If she be guilty, she will deserve all the mental suffering which will undoubtedly await her; but if she be innocent, the public sympathy for her misfortunes can never atone for the horrors of her unhappy position.'*

Erbyn Cyfrifiad 1861 roedd teulu arall yn byw yn y Bryngwyn. I ble tybed yr aeth Dorothy? Oes rhywrai o'r teulu yn gwybod hanes y chwaer a'i brodyr? Prin iawn yw'r trigolion yn Neiniolen heddiw sy'n cofio clywed am yr achos, ac yr oedd yr hanes yn hollol ddieithr i lawer. Doedd rhai a glywodd am y dadberfeddu ar lechfaen gerllaw'r tŷ ddim yn hollol siŵr pam y gwnaethpwyd hynny chwaith. O bosib na chawn byth wybod beth ddigwyddodd i'r ferch ifanc a (efallai) lofruddiodd ei thad.

* * * *

Mae llawer ohonoch wedi cysylltu â mi yn ystod y mis gyda nodiadau a thameidiau o hanesion. Bydd yn rhaid eu gadael i gyd bron tan y mis nesaf, ond dyma un cais i gnoi cil arno. Daeth ymholiad gan Mr Glyn Owen, Glan Gors, Ceunant, ynglŷn â hen ganeuon neu faledi. Byddai'n hoffi cael copi cyflawn o'r caneuon hyn: 'Truenus yw'r gwaith / Fod achos i Gymro i wadu ei iaith'; a 'Jên ni sy'n iawn . . .' Dywed Mr Owen y byddai'r diweddar Charles Williams yn adrodd yr olaf flynyddoedd yn ôl mewn nosweithiau llawen. Os oes unrhyw un â chopïau o'r caneuon/baledi hyn, yna, byddwn yn falch o'u cyhoeddi yn yr Eco.

Anfonwch unrhyw wybodaeth neu ymholiad i **Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug (Ffôn: 0286 673515).**


**Aled Jones**

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Plymio

**4 Bryn Eglwys**
**PENISARWAUN**
**Ffôn Llanberis**
**871047**



**Y STORFA LLANRUG**

**(Richard a Meirwen Williams)**

**Ffôn: C'fon 672790**

Ar agor bob dydd o'r wythnos at eich gwasanaeth

**Nid oes unrhyw dâl am ddanfon archeb i'ch cartref yn ardal Llanrug**

# O SIAMBAR SELWYN

Mi ddwedodd Jones y Sgŵl gelwydd wrtha i pan oeddwn i'n hogyn bach yn Ysgol Bethel. Tydio'n rhyfell fel ma 'na rwbath a glywsoch chi pan yn blentyn yn mynnu aros ar eich cof chi am byth.

* * *

'Roedd hi'n arferiad yn nyddiau mhlentyndod i ni orfod mynd i'r capel deirgwaith y Sul. Roedd hyn yn dipyn o boendod a diflastod ac roedd Mam yn ddoctor digon craff i ddeall sumptomau y poen-bol neu'r cur pen sydyn a gawn ambell i nos Sadwrn.

Hyd yn oed yn y dyddiau cynnar rheini roedd gen i fy ffefrynau o bregethwyr, ac rwy'n dal i gofio ambell i wers a ddysgais. Mi fyddai Meuryn yn dod i bregethu i Fethel yn weddol aml, ac yn ystod ei bregeth fe gaem wers ganddo. Rwy'n cofio hyd heddiw fel y bu'n tanio ynglŷn â'r dywediad, 'dychwelyd yn ôl'. 'Ystyr "dychwelyd",' meddai, 'yw "dod yn ôl". Felly lol botas yw dweud "dychwelyd yn ôl". Ystyr hynny yw: "dod yn ôl yn ôl".' Ydy rwy'n dal i gofio'r wers.

Roeddwn i'n dipyn yn hŷn pan ddwedodd Euron yr adrnod anfarwol honno wrth Mr Mathews, y gweinidog:

'*Gogoniant yn y goruffar i Dduw ac ar y ddaear* . . .' meddai fy annwyl fab.

'Da, was,' meddai Mr Mathews a chyrlan o wên ar ei wefus, 'Yn uwch i bawb dy glywed di.'

Fe ufuddhaodd Euron gan ailadrodd ei glasur ar dop ei lais.

'Da was,' meddai'r gweinidog eilwaith, gan ychwanegu, 'Pwy ddysgod honna i ti — dy dad?'

'Wâs' fyddai Mr Mathews yn ei ddweud gyda phwyslais 'acen gromaidd' ar yr 'a'. Ydw rydwi'n ei glywed o'r munud 'ma. Mae gan ardal gyfan barch i Mr Mathews.

* * *

Ond dowch yn ôl at y celwydd 'na ddwedodd Jôs Sgŵl wrtha i yn Ysgol Bethel. Llongwr oeddwn i am fod pan yn blentyn, cyn i mi benderfynu bod yn bêl-droediwr, yn gowboi, ac yn 'ffilm-star' yn eu tro. Oedd, roedd gen i awydd, yn fy nyddiau cynnar yn Ysgol Bethel hyd yn oed, i grwydro i bellafoedd yr hen fyd ma. Onid oeddwn wedi cael llyfrau am gasglu at y genhadaeth, ac yn canu yn feunyddiol bron: 'Draw draw yn China a thiroedd Japan, / Plant bach melyntion sy'n byw.' Oeddwn, roeddwn i'n ysu am gael mynd i ben draw'r byd — ble bynnar yr oedd o.

A pha well ffordd i weld y byd na mynd yn llongwr ar ôl i mi dyfu. Roedd na hen rigwm a ganem:

*Join the Navy and see the world*
*What did I see? I saw the sea.*

* * *

Wrth sôn am Francis Drake yn chwarae bowls yn Plymouth a'r Spanish Armada ar y gorwel, fe ddywedodd yr hen sgŵl mai Bae Biscay oedd y môr mwya stormus yn y byd i gyd. Rŵan, roedd pob athro a phob prifathro, yn sicr, yn bobol glyfar a gwybodus drigain mlynedd yn ôl ac roedd popeth a ddywedai'r hen sgŵl cyn wired â phader. A dyna pam yr oeddwn i yn bur bryderus ychydig wythnosau yn ôl pan gefais y cyfle am y tro cynta yn fy mywyd i groesi Bae Biscay. Mordaith bedair awr ar hugain oedd hi o Plymouth i Santandêr. Fûm i'n sâl môr? Choeliais i fawr. Roedd Bae Biscay mor llonydd â Llyn Glanrafon ar hwyrnos o haf wrth i ni groesi i Wlad y Basg, ac hefyd wrth i ni groesi'n ôl i wlad y Sais. Am drigain mlynedd bu gen i ddarlun o Fae Biscay stormus a chynhyrfus yn nghefn fy meddwl — darlun a blanwyd yn fy nghof yn Ysgol Bethel, ac fe chwalwyd y darlun yn llwyr mewn pedair awr ar hugain. Rhag cywilydd i Jôs Sgŵl am iddo ddeud celwydd wrtha i yntê?

* * *

Ond mi fûm i'n sâl môr unwaith. O, do, yn sâl fel ci — a hynny wrth fynd rownd Sir Fôn yn y stemar bach o'r Borth. Rhyw deirgwaith mewn blwyddyn fyddai'r stemar yn mynd o Borthaethwy reit rownd yr ynys.

Dyddiau cynnar HTV oedd hi a minnau'n gofalu am straeon ar gyfer 'Ffilmiau'r Dydd' o'r swyddfa-un-bwrdd-a-ffôn ym Mangor. Fe drefnais i gael mynd ar y trip gyda'm cyfaill Gareth Owen y gŵr camera. 'Roedd y sgript wedi ei pharatoi yn drwyadl — Pont Menai, Castell Biwmares, Ynys Seiriol, Moelfre — pob man o ddiddordeb a oeddem i'w weld ar y fordaith — yd at dre Caernarfon a'r castell ac angorfa Twm Huws o Ben-y-ceunant yn y Felinheli. O, heb os, clasur o sgript.

Roedd criw HTV, sef y ddau ohonom, wedi cyrraedd Porthaethwy yn brydlon. Cyn mentro ar fwrdd y llong fe aethom fel llongwyr profiadol i flasu peint neu ddau o 'Blac an' Tan' i'r Liverpool Arms, ac yn unol â thraddodiad morwyr, 'rum' neu ddau yn ogystal.

'*Would the HTV crew please report to the Captain'.* Dyna'r neges a glywsom ar yr uchelseinydd wrth i ni esgyn i'r llong. Gwnaethom hynny a chawsom ein harwain i grombil cyfyng y stemar, lle roedd na ginio anferth wedi ei baratoi ar ein cyfer. Roedd Afon Menai yn dawnsio y diwrnod hwnnw, a'r môr yn dangos ei ddannedd. Roedd y 'Blac an' Tan' a'r 'rum' yn corddi yn ein stumogau ni, a chinio'r Capten yn mynnu cweryla â'r cyfan. Roeddan ni'n dau yn wirion bôst o sâl. Roedd rhediad y sgript yn racs. Roedd y stemar wedi hen basio Biwmares, Ynys Seiriol a Moelfre a ninnau'n dal i farw'n gyfoglyd yng nghrombil y llong. Yn wir, y lle cynta o ddiddordeb i ni ei weld oedd Atomfa'r Wylfa, ac roedd honno'n siglo o flaen ein llygaid fel petai yna ddaeargryn ar Ynys Môn.

Ond fe lwyddon ni, drwy ryw ryfedd wyrth, i gael lluniau i gydredeg â'r sgript. Mae'n wir mai yn ddiweddarach yn yr wythnos y gwnaed peth o'r gwaith ffilmio, a hynny hefo daear gadarn Môn ac Arfon yn sylfaen ddiogel o daen ein traed.

Mae Gareth a finna yn dal i gofio'r fordaith honno rownd Sir Fôn ac rydan ni'n dau yn bendant mai cinio'r Capten fu'n gyfrifol am y salwch — yn enwedig y cawl melyn, tew hwnnw. Rwy'n ei weld o'r munud ma. Ych a fi!

Ond dyna pryd y sylweddolais mai llongwr go simsan fyddwn i wedi bod, a diolch na fu i mi fentro hwylio'r cefnforoedd.

* * *

Mordaith fechan fydd gen i o Oban i Ynys Mull ac Iona. Mae na 59 o frenhinoedd yn gorwedd yn naear Ynys Iona yn ôl pob hanes, ac yno hefyd yn gynharach eleni y rhoddwyd gweddillion John Smith, cyn-arweinydd y Blaid Lafur, i orffwys.

Mi fydda i yn mwynhau treulio ychydig amser yn nhawelwch ynys unig ar brydiau. Mae'n hyfryd cael gwrando ar dawelwch.

* * *

Ond mae'n gwilydd i mi gyfaddef — fûm i rioed ar Ynys Enlli. Chlywais i rioed Jôs Sgŵl yn sôn am Ynys Enlli chwaith, nac am yr un o'r ugain mil o saint sy'n gorffwys yno.

Ond efallai mai celwydd yw'r stori am y saint, a dyna pam na soniodd y Sgŵl am Ynys Enlli wrthon ni.

Fyddai Jôs Sgŵl ddim yn deud celwydd. Dim ond amball dro.


**W.J.GRIFFITH**
PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANOLOG
Pant Tirion, Llanrug
Ffôn: Caernarfon 673248
Gosodwyr Nwy Cofrestredig Corgi
CORGI — GAS IN SAFE HANDS
Aelod o'r Association of Mechanical Services Contractors
*Dim un dasg rhy fychan*
*Dim un dasg rhy fawr*

Am bob math o
**WYDR** wedi'i
**DORRI, DDANFON NEU EI OSOD.**
cysylltwch â
**Barrys GLASS**
**Camelot, PENISARWAUN**
**Ffôn: Llanberis 871144**

**GARTH MAELOG**
**PET CENTRE AND GROOMING SALON**
Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dwr oer
Offer pysgota

Molchi, cribo a chlipio
cwn a chathod
o bob math
gan arbenigwr
**STRYD FAWR, LLANBERIS 870840**

**E. W. Pritchard**
**CENTRAL GARAGE**
**Llanberis**
**Ffôn: 870202 a 870272**
TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

J.M.
JONES
A'I FEIBION
GWAITH
CERRIG
BEDDAU

**Y SGWÂR**
**LLANRUG**
Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol
Cerrig o bob math ar gael
**Ffôn:**
**C'fon 672898** (dydd)
**C'fon 676285** (nos)

# 'Un funud fach . . .'

## Y LLWYBR

Y diwrnod o'r blaen soniodd ffrind wrthyf amdano fo a'i wraig yn mynd am dro i ben y Wyddfa. Mae'n amlwg iddynt fwynhau eu hunain. Ond ar adegau roedd y daith yn anodd. Bu ond y dim iddynt droi nôl fwy nag unwaith gan feddwl bod y llwybrau serth yn drech na hwy. Meddylient weithiau na fyddent byth yn cyrraedd y copa. Ac yna, byddent yn dringo dros rhyw grib ac yn cael golwg ar ben y mynydd a hynny yn rhoi hwb iddynt ymlaen. Ar brydiau hefyd meddylient nad oedd yna fawr o neb arall ar y mynydd y diwrnod hwnnw. Roedd rhannau hir o'r llwybr yn wag, ond wedi cyrraedd y copa cawsant eu synu o weld cymaint o bobl yno.

Mae'r bywyd Cristnogol yn gallu bod yn anodd ar brydiau. Gallwn ei chael yn anodd weithiau i dysdio i'r Efengyl. Gall gorchmynion yr Iesu edrych yn anodd i'w cadw. Gallwn ddigalonni wrth fethu dilyn yr Iesu fel y dymunwn. Ar adegau felly, gallwn feddwl bod y daith yn rhy anodd. A dyna pryd mae golwg eglur ar yr Iesu ei hun mor werthfawr. Mae golwg arno Ef yn rhoi hwb i ni fynd ymlaen. Mor braf cael golwg ar ei groes, i'n hatgoffa iddo farw drosom, ac ennill maddeuant llawn am ein holl feiau. Mor werthfawr yw golwg ar ei addewidion i fod efo ni bob amser i'n helpu a'n nerthu. Mor bwysig yw golwg mynych ar ei gariad a'i dosturi mawr at rai gwan fel ni.

Ac mae'r bywyd Cristnogol yn gallu bod yn unig ar brydiau. Mae'n bosib meddwl nad oes ond criw bychan yn dod ynghyd o Sul i Sul, a down yn gyfarwydd â'r un wynebau o fis i fis. Ofnwn bod y Ffydd yn amherthnasol yng ngolwg llawer o'n cyfeillion. Ofnwn mai ychydig o'n cydweithwyr a'n cymdogion sy'n gweld gwerth yn Iesu Grist a'i Efengyl. Ar adegau felly, mor bwysig yw cofio ein bod yn rhan o gwmni mawr sy'n dilyn yr Iesu. Mae yna bobol wedi cerdded yr un llwybr â ni ers cenedlaethau, ers canrifoedd lawer. Mae yna bobol o bob rhan o'r byd yn dal i gerdded yr un ffordd; miloedd ar filoedd ohonynt, yn credu'r un gwirionedd am yr Iesu, yn canu'r un gân o fawl iddo, yn rhannu'r un ffydd ynddo, ac yn profi'r un cariad drwyddo. Fedrwn ni ddim gweld pawb sydd ar y ffordd efo ni, ond ryw ddydd pan gyrhaeddwn ben draw'r daith, fe welwn y lle'n llawn. Bydd y nefoedd yn llawn o bobol o bob oes ac iaith a chenedl. Bydd copa'r mynydd dan ei sang.

JOHN PRITCHARD


**EISTEDDFOD GADEIRIOL GWAUN GYNFI DEINIOLEN**

**yng Nghapel Ebeneser**

**Dydd Sadwrn, 29 Hydref**

**12.00 a 6.00 o'r gloch**

Beirniaid

Cerdd: Mr Geraint Roberts, Prestatyn

Adrodd a Llên: Jâms Nicolas, Tal-y-bont, Bangor


# DEINIOLEN


**W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: 871259**

**Camera yng ngofal Glyn Gruffydd, Cynfi. Ffôn: 870394**





*Derbyn y Clwb Pêl-droed rodd o dracwisgoedd cynnes gan Gwmni Hallam.*

**Clwb Elidir:** Cafwyd cyfarfod ar Medi 11 o dan lywyddiaeth Mrs Buddug Jones. Cyfarfod o Ddiolchgarwch oedd hwn gyda'r merched canlynol yn cymeryd rhan: Mrs Megan P. Morris, Mrs Glenys Roberts, Mrs Buddug Jones, Mrs Jane Jones, Mrs J. Eirlys Williams, Mrs Beti W. Davies, Mrs Jennie Williams, Mrs Alwen Jones, Mrs Eve Braithwaite, Mrs Sally Lewis, Mrs Dolly Brown, Mrs Pat Evans a Miss Eileen Williams.

Rhoddwyd te arbennig gan Mrs Glenys Roberts a Mrs Jane Jones. Enillwyd y raffle, rhoddedig gan Mrs Jane Jones, gan Mrs Eve Braithwaite.

Anfonwyd ein cofion at ddwy chwaer oedd wedi bod yn yr ysbyty ar ôl damweiniau yn eu cartrefi, sef Mrs Jane C. Hughes a Mrs Annie M. Morris.

Cydymdeimlwyd â Mrs Janet Bingham yn ei phrofedigaeth o golli ei modryb.

Dymunwyd pen-blwydd hapus i Miss Eileen Williams ac hefyd pen-blwydd priodas i Mrs Jennie E. Williams.

**Plaid Cymru:** Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y gangen ar nos Fawrth, Hydref 4. Etholwyd y swyddogion canlynol — Cadeirydd: Mr Len Jones; Is-gadeirydd: Mr Owie Gibson; Ysgrifennydd: Mrs H. M. Roberts; Trysorydd: Miss Mair Rees Jones; Ysgrifennydd aelodaeth: Miss Iris Rees Jones.

Cynhelir Ffair Nadolig ar Ragfyr 2il.

Enillwyr Clwb Cant misoedd Medi a Hydref — Medi: £10: Mrs Janet Bingham, 28 Rhydfadog; £5: Mrs Glenys Williams, Ty'n Clwt. Mis Hydref: £10: Mrs Marina Bryn Jones, Glan Seiont, Caernarfon; £5: Mrs L. M. Lewis, Llys Annedd.

**Symud y Gofeb:** Carem roi gwybodaeth i'r rhai sy'n gysylltiedig â chapel y Wesleaid, Tabernacl, Deiniolen, fod y Gofeb a oedd ar fur y capel yn awr wedi ei gosod ym Mynwent Macpela, Deiniolen. Trwy garedigrwydd cyn-aelodau Disgwylfa ac aelodau presennol Cefnywaun.

Manteisiaf ar y cyfle hwn i ddiolch o galon iddynt am y gymwynas a'r gwaith destlus iawn. — J. Eirlys Williams, Cyn-ysgrifennydd Y Tabernacl.

**Merched y Wawr:** Nos Lun, Medi 19, cafwyd y cyfarfod cyntaf o dymor y gaeaf. Er ei bod yn noson wlyb a niwlog fe ddaeth cynulliad da ynghyd.

Y gŵr gwadd oedd y Parchg Harri Parri o Gaernarfon a chafwyd hanes ganddo o'i 'filltir sgwâr' lle'i ganwyd a'i magwyd. Fe'i cyflwynwyd gan y Llywydd, Mrs Iona Richards, ac fe ddiolchwyd iddo gan Mrs Megan Morris.

Rhoddwyd y te gan Mrs Margaret Roberts, Mrs Margaret Jones, Mrs



*Mr a Mrs Hugh Vaughan Evans, 3 Dinorwig Terrace, Clwt-y-bont, ar ddydd pen-blwydd Mr Evans yn 90 oed. Llongyfarchiadau calonnog iddo.*

Margaret Cynfi Griffith a Mrs Buddug Jones. Enillydd y raffl oedd Mrs Glenys Williams.

**Llongyfarchiadau** i Mr Hugh Vaughan Evans, 3 Dinorwig Terrace, Clwt-y-bont, ar ddathlu ei ben-blwydd yn 90 oed ar y 5ed o Hydref.

**Diolchiadau:**

Dymuna Alwen a Robin, 12 Rhydfadog, ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogi9on am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl, Gwladys Thomas. Diolch yn fawr iawn am y llu cardiau, galwadau ffôn, ymweliadau, blodau a'r rhoddion tuag at Gronfa Ymchwil y Galon.

Dymuna Mr a Mrs H. Vaughan Evans ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau, anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniodd Mr V. Evans ar achlysur dathlu ei ben-blwydd yn 90 oed ar y 5 Hydref. Diolch yn arbennig i Eglwys Cefnywaun am y Beibl hardd a gyflwynwyd i Mr Evans. Diolch yn fawr i bawb. Derbyniwyd penillion o waith Mr H. Jones, Deiniolen, i Mr V. Evans ar yr achlysur:

Dy gofio yn y blynyddoedd cynnar
Yn gydweithiwr ym Mhonc Penrhydd Rowler
A phan fu'r awydd am foto-beic ddod heibio
Iti godi cwt ar ben clip Clogwyn Gutto.

Os cofiaf yn iawn, ei frîd oedd Aerial
Ac arno yn gysgod i'th gefn roedd Muriel;
Ei phriodi fu d'hanes yn fuan wedyn
A throi yn ffarmwr-chwarelwr Cae Rhedyn

Gofod sydd yn atal i gofnodi dy holl hanes wedi iti ymadael i rhif 3 Dinorwig Terrace; ac yno'r anfonaf gyfarchion pen-blwydd i Môn — gyda'm llongyfarchiadau a'm cofion — onid yw'r blynyddoedd wedi ehedeg; dyma ti heddiw yn dathlu pen-blwydd yn 90eg.

**Cyngor Eglwysi:** Cynhaliwyd Cyfarfod Diolchgarwch dan nawdd y Cyngor Eglwysi yng nghapel Libanus nos Lun, Hydref 10.

**Y Gymdeithas Lenyddol:** Cafwyd cyfarfod difyr iawn yng ngofal Mr Bleddyn Jones, Groeslon, i agor y tymor newydd. Cyfuniad o gwis llenyddol a straeon ygafn a gafwyd. Mrs Eirlys Williams oedd llywydd y noson.


**PLAID CYMRU**


**FFAIR NADOLIG**

**Nos Wener, 2 Rhagfyr**
**yn Y Ganolfan, Deiniolen**

**am 7.30 o'r gloch**

**BYDD SIÔN CORN YN GALW**

**Mynediad: Oedolion 30c, Plant 10c**

*Cerrig Coffa a dynnwyd o gapeli Tabernacl a Disgwylfa sydd wedi eu gosod yn daclus wrth fynedfa Mynwent Macpela.*

# Y LLAW SY'N SIGLO'R CRUD

## gan Selwyn Pritchard, Llanberis

### RECRIWTIO YN LLANBERIS A'R CYLCH (1914-1916)

**Ar adegau gall sgwennu erthygl arwain at godi gwrychyn rhai pobl gan beri iddynt wylltio'n gaclwm wrth anghytuno hefo rhai sylwadau a welir yng nghynnwys yr erthygl honno. Nid dyna fy mwriad yn sicr ond yn hytrach ceisio crynhoi tipyn o hanes a chefndir testun sensitif iawn, sef recriwtio, a chyflwyno'r ffeithiau hanesyddol fel ac yr oeddynt ar y pryd.**

Trwy gyfnod y Rhyfel Mawr bu drwg deimlad rhwng pobl â'i gilydd. Credai llawer bod achos dros ryfela yn gyfiawn, trai eraill roedd trin y cledd yn erbyn cyd-ddyn yn anfoesol a gwrth-Gristnogol. Credai eraill wedyn mai pwrpas y Rhyfel oedd i lenwi coffrau y cyfoethog a'r prysur bwysig. Ym myd crefydd roedd cryn anghytuno hefyd. Ers peth amser roedd yr Eglwys Babyddol ac Eglwys Lloegr yn cefnogi ymgyrch y Rhyfel, ond capelwyr oedd y rhan fwyaf o'r Cymry yn ystod y cyfnod yma. Dryslyd ac ansicr oedd teimladau pobl pan welsant rhai arweinyddion yr Efengyl yn ysgwyddo ymgyrch y Rhyfel gan bregethu ledled Cymru dros 'gyfiawnder', gyda'r byrdwn nad oedd 'colli cenhedlaeth gyfan yn ddim o bris i'w dalu dros gael gwell dynoliaeth ar y diwedd'. Apwyntiwyd rhai gweinidogion yn gaplaniaid i'r fyddin a mynd i Ffrainc i ofalu am 'les ysbrydol' y milwyr, er mai ychydig iawn o effaith a gafodd hyn i gyd.

Ond 'doedd pawb, wrth gwrs, ddim yn cefnogi ymdrechion y Rhyfel. Un o'r gwrthwynebwyr amlycaf oedd y Parchedig John Puleston Jones, y pregethwr dall, a fu'n weinidog ym Mangor, Dinbych, Dinorwig, ac hefyd ym Mhwllheli o 1907 hyd 1918. Heddychwr oedd Puleston a safodd yn gadarn dros ei ddaliadau, ac oherwydd hyn cafodd amser pur annodd yn un o eglwysi cryfaf Cymru, Eglwys Penmount, Pwllheli. Meddai ar feddwl treiddgar a miniog, a manteisiai ar bob cyfle i greu cyffro drwy ysgrifennu erthyglau bachog i'r wasg gan ddatgan ei safbwyntiau heddychol.

'Roedd ei feirniadaeth o bobl dros eu hanner cant oed yn hallt a llym gan iddynt annog bechgyn ifanc i ymuno â'r fyddin. 'Roedd bod yn heddychwr yn destun gwarth a gwawd, fel y profodd cannoedd a safai eu prawf gerbron llysoedd milwrol am wrthwynebu ymgyrch y Rhyfel. Ceisiodd y fyddin saethu nifer ohonynt gan eu dedfrydu fel 'llwfrgwn' am eu bod yn gwrthod ymladd. Yn ystod y cyfnod yma daeth rhai yn enwog iawn wedyn. Un oedd David James Jones o Bontardawe, a adnabyddir heddiw fel Gwenallt — un o feirdd amlycaf Cymru. Bu ef yn garcharor rhwng 1917 a 1918 oherwydd ei ddaliadau crefyddol.

Llugoer iawn oedd ymateb chwarelwyr Arfon i'r alwad yn nechrau'r Rhyfel, ond nid hawdd oedd lladd ysbryd y cyffro a redrai fel twymyn ledled Ewrop. 'Roedd recriwtio fel cyffur na allai nemor neb ei wrthsefyll. Teimlai pawb bod yn rhaid brysio rhag ofn i'r Rhyfel ddod i ben yn rhy sydyn. A dyna'r camgymeriad mawr. Parhaodd am bedair blynedd hir a blin.

Ond beth am ardal Llanberis a'r cylch? Ar nos Fercher, Rhagfyr 22, 1914, cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus yng Nghapel Coch er cymell ieuenctid yr ardal i ymuno â'r fyddin. Yr oedd y capel yn orlawn a chanwyd o'r pentref i fyny hyd at y capel gan Seindorf Arian Llanrug. Llywyddwyd y noson gan y Parchedig John Pritchard, M.A., B.D., ac wedi araith fer cyflwynwyd y siaradwyr gwadd i'r gynulleidfa. 'Roedd yr un peth yn digwydd ym Methesda a Nant Ffrancon hefyd. Y neges oedd cael ieuenctid y fro i neidio i'r adwy drwy ymuno â'r fyddin. Ond ar ddiwedd y cyfarfod dywedir mai ychydig iawn o awydd ymuno oedd gan y bobl ifanc. Ym mröydd y chwareli yn Arfon a Meirion y peth diwethaf o bopeth y byddai i chwarelwyr feddwl amdano fyddai 'listio at y sowldiwrs'.

Erbyn mis Chwefror 1915 roedd dorau brwdfrydedd tuag at y Rhyfel wedi eu hagor ac roedd y llanw wedi cyrraedd Llanberis a'r cylch. Roedd hyd yn oed plant Ysgol Dolbadarn, sef ysgol y pentref, wedi eu rhoi ar waith i ysgwyddo rhyw gymaint ar bwysau y Rhyfel.

*(I'w barhau)*

# SÔN AM SŴN

'Cafodd dyn ei lofruddio yn Abertawe heddiw . . . DI DI, DI DI DI DI . . . Mae dyn yn y ddalfa yng Ngaerdydd wedi ei gyhuddo o anafu tri phensiynwr yng Nghaerdydd . . . DY RYM, DY RYM, DY RYM . . . Mae adroddiadau yn dod i law bod awyren wedi ffrwydro yn yr awyr a bod yr holl deithwyr wedi eu lladd . . . LA LA LA LAH, LA LA LA LAH . . . Mae'r rhyfel yn parhau a miloedd wedi eu gwneud yn ddigartref . . . OOO, IEEEEE!'

Deudwch i mi, oes yna rywun yn gallu cymryd bwletinau newyddion hwyr y nos Radio Cymru o ddifri? Oes raid cael yr holl sŵn yn gefndir i'r bwletinau hyn? Fedra i yn fy myw â gweld pam bod raid cael bar neu ddau o gerddoriaeth ysgafn rhwng pob pennawd neu stori. Mae yna rywbeth chwithig mewn clywed am lofruddiaeth, trais, daeargryn, newyn a rhyfel a'r cyfan yn cael ei adrodd i gyfeiliant miwsig llon, cynhyrfus. Rywsut neu'i gilydd mae dioddefaint pobol yn cael ei fychanu a'i ddibrisio. Ydi o'n ormod i ddisgwyl i wasanaeth radio cenedlaethol gyflwyno bwletin newyddion call a chyfrifol am ddeg o'r gloch y nos? Pam fod rhaid cael y fath sŵn yn y cefndir?

Sŵn cwyno sydd i'w glywed hefyd ar rai o gaeau pêl-droed y fro. Ydach chi'n cofio tîm Llangollen yn dod i Lanberis ers talwm ac yn cwyno — ar ôl colli'r gêm wrth gwrs — bod cae Ffordd Padarn yn rhy fyr? Bu raid ymestyn y cae ac ail-chwarae'r gêm. Sôn am helynt. Ond doedd hwnnw yn ddim o'i gymharu â'r miri diweddara ynglŷn â maint caeau pêl-droed y fro. Mae rheolau newydd yn mynnu bod timau dan 11 oed yn chwarae ar gaeau o 60 medr o hyd, efo gôls bach (fedra i yn fy myw â chofio'r mesuriadau). Dydi pob tîm ddim wedi llwyddo i leihau eu caeau eto, ac mae ffendio £300 i brynu set o gôls bach mewn bocs del yn dipyn o broblem i ambell glwb!! Ac felly, yn naturiol ddigon, mae ambell gêm wedi cael ei chwarae ar gaeau 70 a 80 medr o hyd hefo goliau sydd droedfedd neu ddwy, neu hyd yn oed dair, yn lletach. Ond beth ydi'r ots meddech chi? Sôn am blant dan 11 oed ydan ni. Mater o hwyl a mwynhad ydi'r cyfan. Ond mae ambell glwb yn gwneud sŵn, ac yn mynnu bod gêmau yn cael eu hail-chwarae am fod eu tîm nhw wedi digwydd colli ar gae oedd ychydig yn rhy hir hefo gôls ychydig yn rhy uchel.

B.R.


AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...




**BYSIAU ARFON**
**LLANRUG**
**(Eric Morris)**
**Ffôn: Caernarfon 675175 a 677858**



**Cefnogwch Fusnesau Lleol**

**CEIR CYMRU**
**BETHEL (0248) 670451**
**(Hefyd yng Ngherrig-y-drudion a'r Gaerwen, Môn)**

A ydych yn ystyried newid eich car o fewn y flwyddyn nesaf? Ystyriwch y ffeithiau hyn:

1. Mae tri-chwarter y ceir newydd a gaiff eu gwerthu ym Mhrydain yn colli rhwng 25% a 30% o'u gwerth erbyn eu bod yn naw mis oed.
2. Mae cwmnïau mawr a chwmnïau lesio a llogi yn derbyn oddeutu 25% o ddisgownt wrth brynu eu ceir ac felly mae'r cerbydau hyn yn dod ar y farchnad am brisiau isel ac fel arfer mewn cyflwr rhagorol wedi cael eu cynnal a'u cadw heb ystyried costau.
3. Mae gennym brofiad o 40 mlynedd yn prynu a gwerthu ceir ail-law ac rydym, ar gyfartaledd, yn trafaelio mil o filltiroedd bob wythnos yn chwilio am y bargeinion gorau er mwyn eu cynnig i bobl Gwynedd ar elw sydd fel arfer o gwmpas 5% o'r pris.

# BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: Felinheli 670726

**Camera yng ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (0248) 670115**



*Mrs Eirianwen Pritchard a Gerwyn.*

**Llongyfarchiadau** i Mrs Eirianwen Pritchard, 1 Bro Rhos, ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 80 oed ar yr 11eg o Dachwedd. Ym mis Awst daeth dathliad arall i'w rhan pan enillodd ei ŵyr, Dr Gerwyn Williams, goron Eisteddfod Genedlaethol Nedd a'r Cyffiniau.

**Clwb 200 y Neuadd:** Enillwyr gwobrau mis Medi — £20: Gwyndaf Jones, Tŷ Gwyn (203); £10: Mair Price, 5 Tan-y-ffordd (49); £5 yr un i: Ellech Morris, Fachell (26); Huw Williams, Cefn Gwyn (69); Keith Price, Y Dderwen (88); Iris Roberts, Cefn Cynrig (36); Ivy Wright, 2 Tan-y-buarth (173); Phyllis Owen, 18 Cremlyn (119); Aneurin Jones, Glan Gors (27); June Jones, 5 Bro Rhos (186).

**Llongyfarchiadau** i Meilyr Emrys, Cefn Cynrig, ar dderbyn tystysgrif am y perfformiad gorau gyda Ysgol Ddrama Glanaethwy, mewn cystadleuaeth yn Neuadd y Frenhines Elisabeth, Llundain.

Llongyfarchwn hefyd Ysgol Glanaethwy, ac yn arbennig yr aelodau o Fethel, ar ennill y wobr am y perfformiad gorau yn y gystadleuaeth.

**Yr Eisteddfod:** Erbyn hyn mae dyddiad cau y cystadlaethau Llên a Dawnsio wedi mynd heibio ond atgoffir pawb o weithgareddau'r Eisteddfod yr wythnos nesaf gyda arddangosfa Celf a Chrefft ar nos Fercher, Tachwedd 2il. Dawnsio disgo a dawnsio gwerin ar nos Iau gyda'r Eisteddfod ei hun ar nos Wener, Tachwedd 4.

**Yr Ysgol:** Fore Gwener, Hydref 21, cynhaliwyd gwasanaeth Diolchgarwch yn yr Ysgol. Dosbarth Mrs L. P. Roberts-Williams oedd yn cymeryd rhan. Fel rhan o'r gwasanaeth bu casgliad tuag at brynu offer addysgol i Ward y Plant yn Ysbyty Gwynedd.

Yn ystod y mis bu plant blwyddyn 6 yn ymweld â Stiwdio Barcud yng Nghaernarfon. Ysgrifennodd Sonia Collins lythyr at Alwyn Siôn, Cyflwynydd 'Bacha'i O'ma' yn dweud gymaint y mae'n mwynhau y rhaglen. Yn dilyn hyn ymddangosodd Sonia ar raglen Uned 5 yng nghwmni Alwyn Siôn mewn eitem 'Bachu'n Ddall' gyda Owain Siôn hefyd yn un o'r 'cystadleuwyr'.

Croeso yn ôl i Mr Ian Pierce, y prifathro, wedi iddo dderbyn triniaeth yn yr ysbyty yn ystod y mis.

**Diolchgarwch:** Yn hytrach na dod a ffrwythau a llysiau i'r gwasanaeth Diolchgarwch yn Ysgol Sul y Cysegr eleni fe wnaed casgliad at Gronfa Haematoleg Ysbyty Gwynedd, ac fe gasglwyd £119.

Nos Sul, Hydref 16, cynhaliwyd gwasanaeth gan athrawon yr Ysgol Sul a chymerwyd rhan gan eraill yng ngwasanaethau prynhawn a nos Lun.

Cynhaliwyd gwasanaeth Diolchgarwch ym Methel ar fore Sul, Hydref 16, ac yn Saron am 2 o'r gloch yr un diwrnod.

**Y Neuadd Goffa:** Siomedig iawn oedd y nifer ddaeth i gyfarfod blynyddol y Neuadd ond yn y cyfarfod fe etholwyd Mr Goronwy Jones, Glan Gors, yn gadeirydd ac yn dilyn ymddiswyddiad Mrs Olwen Williams etholwyd Mrs Nan Owen yn ysgrifennyddes. Penderfynwyd anfon llythyr i Mrs Williams i ddiolch iddi am ei gwasanaeth dros y blynyddoedd. Cafwyd adroddiad ariannol gan y trysorydd, Mr Iorwerth Williams.

Yn y cyfarfod trafodwyd cwyn a dderbyniwyd ynglŷn â parcio ceir yn flêr o gwmpas y fynedfa i'r Neuadd gan rwystro mynediad i eraill.

Cynhelir Disgo Calan Gaeaf yn y Neuadd ar nos Wener, Hydref 28, a threfnwyd i gynnal gweithgareddau cymdeithasol rheolaidd yn y dyfodol o dan nawdd Pwyllgor y Neuadd neu gymdeithasau eraill.




*Aelodau Ysgol Sul y Cysegr gyda'u hathrawon adeg yr Ŵyl Ddiolchgarwch.*

# TAN Y COED

Annwen Parry, Ael y Bryn
Ffôn: 872276

**Gwella:** Da deall fod Mr Emyr Tomos, Tanycae, a Mrs Nan Humphreys, Pant Bryngwyn, yn gwella ar ôl triniaeth yn yr ysbyty. Brysiwch wella. Bu Mrs Megan Williams, Dwyfor, hefyd yn yr ysbyty'n ddiweddar a dymunwn wellhad buan iddi hithau; ac i unrhyw un arall sy'n wael yn yr ardal.

**Bedydd:** Ar Hydref 2il bedyddiwyd Rebecca Ellen, ail ferch Gary a Carol Wynne, Gilfach, yng Nghapel Tanycoed. Y Parchg Merfyn Jones oedd yn gwasanaethu a Mr Gareth Wyn Jones wrth yr organ.

# BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams
Godre'r Coed. Ffôn: 870580

**Camera yng ngofal John Pritchard Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390**

**Diolch:** Dymuna Dilys Jones, Cytir, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, ffrwythau a blodau a'r galwadau ffôn a dderbyniodd tra'n wael yn ddiweddar. Diolch hefyd i staff Ward Hebog, Ysbyty Gwynedd am eu caredigrwydd a'u gofal.

**Cymdeithas y Chwiorydd:** Daeth aelodau'r Gymdeithas at ei gilydd i'r Festri, nos Iau, Hydref 6ed, i gyfarfod olaf y tymor am eleni. Estynnwyd croeso i bawb gan y Llywydd, Mrs L. P. Roberts-Williams, a chymerwyd at y rhannau arweiniol gan Mrs Jennie Hughes. Sylfaenodd ei myfyrdod ar Ŵyl y Diolchgarwch. Gŵr gwadd y noson oedd Mr Robert Williams, Deiniolen, a chafwyd atgofion diddorol ganddo am y cysylltiad fu ganddo ef â Brynrefail tra'n ddisgybl yn yr Ysgol Ramadeg ac am brofiadau cofiadwy yn y gwahanol alwedigaethau bu'n ei dilyn cyn cloi ei sgwrs ar y testun 'Breuddwydio'. Diolchwyd iddo gan Mrs Ifanwy Jones.Paratowyd y baned gan Mrs Gwyneth Evans a Mrs Betty Owen.

Edrychir ymlaen i ailymgynnull yn Ebrill 1995 ac etholwyd y swyddogion canlynol ar gyfer y tymor newydd — Llywydd: Mrs Ifanwy Jones; Ysgrifennydd: Mrs Jennie Hughes; Trysorydd: Mrs Elen George.

**Sefydliad y Merched:** Nos Lun, Hydref 17eg, bu cyfarfyddiad o'r gangen leol yn y Festri dan lywyddiaeth Mrs Pat Jones. Treuliwyd noson ddifyr yng nghwmni Heather Lowe o'r Fachwen yn arddangos gwaith paentio ar sidan. Cafodd yr aelodau gyfle i greu enghraifft ddeniadol ar y cyd. Verna Jones a Gwawr Morris drefnodd y baned ac enillwyd gwobr y mis, rhoddedig gan Mrs Dwynwen Williams, gan Mrs Eleanor Williams.

Bydd y cyfarfyddiad nesaf ar Dachwedd 21ain pryd y cynhelir y Cyfarfod Blynyddol.

**Cefnogwch ein Hysbysebwyr**


IEUAN WILLIAMS
Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484
★ Bysiau o 12 i 53 sedd
★ Teithiau Lleol a Thramor
★ Gwaith Contract
★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

OSMOND SHAW
DEINIOLEN
GWERTHU
– TRWSIO
★ Teledu
★ Fideo
★ Offer Trydan
Gwasanaeth
Ffôn 24 awr
LLANBERIS 870545

I drin a thrwsio pob math o beiriannau gwnïo
MENAI SEWING MACHINE CENTRE
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn:
(0248) 714043
neu C'fon 674520
Edau, Nodwyddau ac ati mewn stoc

Heliwch eich traed am fargen i
SIOP ESGIDIAU GLENS
Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: 871470

## FORMAGGIO Per Favore

**(Ail ran hanes Gai Williams o Ddeiniolen yn gweithio fel ffotograffydd yn yr Eidal.)**

Pythefnos yn ôl roedd Riccardo Ferri yma. Pwy? medda' chi. Riccardo Ferri, chwaraewr enwog Inter Milan. Fe gytunodd i chwarae yn nhîm y cwsmeriaid chware teg iddo. Unwaith roedd rhywun yn agos ato ar y cae . . . clic, clic, clic . . . y Canon ar 'overtime' — lluniau sydd yn gwerthu yn dda. Erbyn y noson honno roedd Ric wedi cael llond bol ar ôl i'r mamau a'r tadau ei haslo i dynnu llun gyda'u plantos . . . roedd yntau ar ei wyliau hefyd! Un ffafr ddiwetha — llun efo'r co o Ddeiniolen — Si, Va Bene!

Ambell wythnos bydd yr Equipe — y staff adloniant — yn trefnu gemau Olympaidd gan rannu y cwsmeriaid i bedwar tîm neu 'wledydd'. Mae'r gemau yn para trwy'r dydd hyd at y diweddglo gyda phêl-droed y merched. Mae'n hawdd tynnu lluniau yma achos mae'r ddau dîm mewn bwndel anrhefnus rownd y bêl gan symud o un ochr o'r cae i'r llall fel casgliad o forgrug yn cario brigyn. Mae'n sioe llawn digrifwch ac emosiwn.

Gyda'r nos cyn, neu ar ôl, swper mae'r cwsmeriaid yn nôl eu lluniau a archebwyd yn y bore. Bob diwrnod pedwar awr o werthiant, archebu a dosbarthu, gyda digon o gwyno — lluniau rhy glir neu rhy dywyll, Mwy o waith i'r hen Pietro.

Fe werthir rhwng 400 a 500 o luniau bob wythnos. Gan gysidro bod cwmni Dall Acqua wedi ennill cytundeb i fod yn ffotograffwyr ym mhob pentref Valtur maent yn gwneud paced a hanner bob wythnos. Rydym ni hyd yn oed yn gorfod wanglo y llyfrau cyfrifon er mwyn peidio talu gormod o dreth. Bob mis maent yn gyrru rhestr gwerthiant i ni. Fel pob Eidalwr mae'n trio pob tric i osgoi anrhegu ei arian i'r lladron sy'n llywodraethu. Go wir, yma mae'r Llywodraeth yn lladrata. Y fantais i ni, heb sôn am y profiad, ydi'r llety a'r bwyd am ddim. Rwy'n gwario y nesa i ddim o 'mhres fy hun — ond ambel i bapur newydd, coffi a chwrw ciami.

Tua deg o'r gloch bob nos mae'r sio yn dechrau yn y theatr awyr agored. Mae staff yr 'Equipe' yn actio cabaret, dweud jôcs, ac ati. Adeg i dynnu lluniau'r plant a'r rhieni yn chwerthin a chlapio yn y gynulleidfa. Ar ddiwedd pob sioe mae pawb yn codi i ganu a dawnsio cân Valtur ac mae'r 'flash' yn goleuo bron pob wyneb hapus a bywiog.

Unwaith yr wythnos mae sioe y cwsmeriaid — y nhw ydi'r sêr am y noson. Fel rheol mae nhw'n acio/meimio 'Grease' gyda'r cymeriadau mwya digrif a siapus yn actio John Travolta ac Olivia Newton-John. Rhaid cael llun o bawb o grŵp John Travolta i'r genod pom pom sy'n bowndian ar draws y llwyfan.

Nos Iau ydi'r noson brysuraf i mi — hon ydi'r Serata-Eglegante' — pawb wedi gwisgo yn grand o'u co yn yr ristorante yn ei Armanis, Versacci a'i Gucci. Fy joban i, yn fy Oxfams, a Pietro ydi crwydro'r byrddau yn tynnu lluniau y cwplau yn cael amser da. Awran arall o waith caled yn clician tua 650 o bobol. Wedyn yn syth i'r gegin o ofyn am blatiad o pasta — sglaffio hwnnw i lawr. Pietro yn mynd yn syth i'r gwerthiant a finna drosodd i'r theatr i dynnu lluniau sioe y plant — 'Aladdin a'i garped hud' gan ddangos diwylliannau o bedwar ban byd — tua 50-60 o blant yn eu costiwm lliwgar ydi'r sêr.

Rhaid manteisio ar yr achlysuron yma a thynnu cyn gymaint o luniau a sy'n bosib. Pob 4-5 eiliad, yr amser i adnewyddu'r flach, mae'r 'shutter' yn agor a chau. Mewn hanner awr o sioe rwy'n tynnu tua 200 o luniau ac yn llwyddo i werthu canran dda ohonynt. Tra dwi'n gneud pres peint mae Signor Dall Acqua yn estyn y sach, ei lygaid yn goleuo wrth afael yn y miliynau o lira.

Rwy'n cael amser difyr yma gyda chriw ifanc a bywiog ac yn dod i adnabod a gwneud ffrindiau gyda phobol newydd bob wythnos. Nid yr arian sy'n bwysig i mi yma, ond y profiad ffotograffiaeth. Bod mewn gwahanol sefyllfaoedd gyda phobol a dysgu a deall sut i ddelio gyda'r gwrthrych sydd o'm blaen. Megis dwi ar lan y môr, yn y theatr, yn y Mini Club, mynd o amgylch y ristorante, mae fy hyder a'm dealltwriaeth o sut i ddelio gyda phobol mewn ffordd naturiol a phroffesiynol wedi datblygu yn enfawr. Yn y dechrau roeddwn braidd yn swil wrth dynnu lluniau pobol — rŵan mae'r hyder i'w weld.


Caf fantais fawr arall hefyd. Tra bod Sig Dall Acqua o Torino yn manteisio ar ein gwaith caled wrth dalu cnau, rwyf fi yn cael tynnu lluniau mwy creadigol ar fy liwt fy hun — profi technegau gwahanol gyda'r camera — creu prosiectau i mi fy hun. Dydy'r 'negs' gorau ddim yn diweddu yn ei archifdy, ond byddant yn rhan bwysig o'm portffolio — casgliad o emosiynau haf.

Ar ôl y tymor dwi'n bwriadu mynd i grwydro Sisili am bythefnos neu dair wythnos. Dwi wir angen amser i ymlacio. Dim ffordd well na chrwydro harddwch yr ynys gyda'r camera a'r treipod. Yn foddus mae Salvo, yr athro nofio, wedi addo dangos tipyn o'r ynys i mi.

Ar ôl gwario pob ceiniog fe fydd hi'n adeg pacio'r kammor a throi am Eryri!

Ciao e Arrivederci!

# MWYAF GARW MARW YMHELL



Yn nechrau Medi bu farw hen gyfaill a'i wreiddiau yn nwfn yn ardal chwarel Dinorwig ond a'i gartref yng Nghanada ers 1954.

Ganed John Williams a'i frawd, Frazer, yn Lushai (Mizo bellach) lle roedd eu rhieni yn genhadon. Ganed y Parch John Williams, eu tad, yng Nghwm-y-glo, cyn symud yn ifanc i Ddinorwig; a Mrs Williams eu mam, ym Mhenisarwaun.

Wedi gadael India ymsefydlodd y rhieni yn Llundain ac anfonwyd John i ysgol breifat yn Nolgellau am tua phedair blynedd. Aeth i'r Brifysgol yn Rhydychen gan raddio mewn Athroniaeth, Ffiseg ac Economeg, a mwynhau ei hun yng nghwmni Cymry ifanc, megis Ioan Bowen Rees, yng Nghymdeithas Dafydd ap Gwilym.

Yn nechrau'r 50au byddai'n dod ar ei wyliau at berthnasau yn Neiniolen a Dinorwig, sef Mr a Mrs John Griffith (Jac Penlan) a Jennie a John Griffiths, Ty'n y Bigil, Dinorwig (roedd Jennie Griffiths yn chwaer i'w dad). Dyna'r tro cyntaf inni gyfarfod ac rwy'n cofio imi lwyddo i danio'i ddiddordeb mewn darllen llyfrau Cymraeg megis rhai T. Rowland Hughes ac yn achos rhyddid Cymru drwy Blaid Cymru.

Wedi graddio, penderfynodd John ymfudo i Ganada a mynd i fyd busnes gan arbenigo fel dadansoddwr systemau mewn cwmni cemegol a chwmni telathrebu. Maes o law trodd at lyfrgellyddiaeth gan ennill gradd Meistr mewn Gwyddor Llyfrgellyddiaeth ym Mhrifysgol Metrill, ond gan ddefnyddio'r un sgiliau ag a ddefnyddiai mewn diwydiant. Roeddem yn ysgrifennu'n gyson at ein gilydd a byddai John yn archebu llyfrau a chylchgronau Cymraeg yn rheolaidd. Gwn iddo adael ar ei ôl lyfrgell fawr o lyfrau a chasetiau Cymraeg a llyfrau ar ddwyieithrwydd.

Byddai John yn cyfrannu'n gyson ac yn hael at Blaid Cymru a Chymdeithas yr Iaith ac yn dilyn datblygiadau yng Nghymru yn fanwl. Pan garcharwyd Dafydd Iwan yn nechrau'r 70au arweiniodd John orymdaith brotest drwy brif stryd Montreal at Lysgenhadaeth Prydain gyda'r Ddraig Goch ar y blaen, wrth gwrs. Bu dau barti o athrawon a swyddogion addysg o Wynedd a Chlwyd yng Nghanada ym 1982 ac 1983 a chawsom groeso twymgalon ganddo fo a'i deulu ac nid oedd dim yn ormod ganddo'i wneud i hwyluso'r trefniadau.

Byddai'n dod drosodd ar wyliau o dro i dro ac ni roddai ddim mwy o bleser iddo na mynd o dŷ i dŷ yn ardal Cwm-y-glo gan recordio atgofion hen bobl; a gwn iddo wneud hynny yn Poultney, Vermont, hefyd.

Bu John druan i mewn ac allan o'r ysbyty yn ystod y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf a thrist oedd clywed am ei farw, yn 64 oed, ar Fedi 6ed — 'Mwyaf garw marw ymhell'.

Gedy briod, Simone, a phedwar o blant a phump o wyrion yng Nghanada; dau frawd, Dr Frazer Williams, Sale, ac Eilian Williams, Pontypridd; a chwaer, Mrs Heulwen Jones, Yr Wyddgrug.

Ar ddiwedd erthygl goffa yn ei golofn wythnosol 'Tremion' yn *Y Cymro* fis yn ôl fe ysgrifennodd Dr Tudur Jones fel hyn:

'Byddwn yn sôn am "wneud ffrindiau". Nid gwneud ffrindiau y byddwn ond eu cael.

'Rhoddion ydynt.

'Mae'r cwbl, fel y bydd y diwinyddion yn dweud, o râs.

'A'r trysorau gwerthfawrocaf a feddwn yw nid y pethau yr ydym yn eu prynu, ond y pethau a roddir inni, heb eu haeddu a heb eu disgwyl. Ni ellir rhoi pris ar ffrindiau, dim ond diolch o galon amdanynt.'

Dyna paham y mae hi mor anodd ysgrifennu 'y diweddar' o flaen enw fy nghyfaill John Williams, Montreal.

DAFYDD ORWIG

# LLANRUG

**Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn; 675384.**

**Camera yng ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed. Ffôn: 677263**

**Merched y Wawr:** Cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen ar nos Fawrth, Hydref 11eg, gyda Mrs Menna Williams yn y gadair.

Treuliwyd noson hwyliog a difyr iawn yn cael golwg ar 'hen bethau' yng nghwmni D. Rogers Jones, er na lwyddwyd i ddatrys dirgelion pob un o'r 'pethau' dan sylw. Bydd yr aelodau yn llawer mwy gwybodus ac yn fwy tebygol o werthfawrogi eu casgliadau o hyn ymlaen gan fod nifer ohonynt wedi cael syndod o ddeall gwerth rhai o'r celfi a ymddangowsai yn ddibwys. Un wers werthfawr a ddysgwyd oedd peidio â rhannu parau neu setiau o lestri, dodrefn a chelfi eraill, gan fod hynny yn golygu gostyngiad sylweddol yn eu gwerth. Diolchwyd i Mr Rogers Jones gan Mrs Margaret Parry yr Is-drysorydd.

Croesawyd Mrs Jennie Williams a Mrs Gwladys M. Jones yn ôl i'r gangen a dymunwyd iddynt lwyr adferiad iechyd.

Cydymdeimlwyd â Mrs Enid Whiteside Thomas a Mrs Gwenda Roberts yn eu profedigaethau o golli chwaer a nain.

Gwnaed apêl am rai i sgwrsio â'r dysgwyr mewn Ysgol Sadwrn sydd i'w chynnal ym Maesincla, Caernarfon, ddydd Sadwrn, Tachwedd 5ed.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Dachwedd 8fed gyda Angela, o siop Peris Jones, yn dangos sut i goluro.

**Plaid Cymru:** Daeth tyrfa dda i weld perfformiad Cwmni Bara Caws o ddrama John Glyn, 'Diana', nos Fercher, 12 Hydref. Trefnwyd y noson gan gangen Llanrug o Blaid Cymru. Enillydd y raffl oedd Mrs Doris Mulheim, Caeathro.

Bydd y cyfarfod nesaf yng Nghanolfan Gymuned Penisarwaun, nos Fercher, Tachwedd 9, am 7.730 o'r gloch. Edrychwn ymlaen i glywed y Barnwr Dewi Watkin Powell yn annerch ar 'Y Gyfraith — Cymru a Chymraeg'. Mae croeso cynnes iawn i bawb i'r cyfarfod.

Enillwyr y Clwb Cant am y tri mis diwethaf — Awst: 1, Twrog Jones, Caernarfon; 2, Mary Lloyd, Caernarfon. Medi: 1, Betty Peris Jones, Egryn Villa; 2, Mrs Jean Walsh. Hydref: 1, Mrs J. E. Parry, Morannedd; 2, Haf Morris.

**Capel y Rhos:** Cynhaliwyd cyfarfod Diolchgarwch Cymdeithas y Chwiorydd ar brynhawn lau, 27 Hydref. Bydd cyfarfod nesaf y Gymdeithas ar nos lau, 24 Tachwedd, am 7 o'r gloch.

## ENNILL TLWS YR IFANC



*Ceri Jones, enillydd Tlws yr Ifanc yn Eisteddfod Bentref Llanrug. Bydd gwaith buddugol Ceri yn ymddangos yn rhifyn nesaf yr Eco.*

**Eisteddfod Llanrug:** Cynhellir y Cyfarfod Blynyddol yn Festri Pontrhythallt, nos Lun, Tachwedd 14, am 6.30 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

**Llongyfarchiadau** i Mr Thomas Williams, Llys Eiddon, a fydd yn dathlu ei ben-blwydd yn 90 oed ar y 5ed o Dachwedd. Mae John, Menna a'r teulu i gyd yn dymuno pen-blwydd hapus iawn iddo.

**Profedigaethau:** Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Nigel Kirkpatrick, 1 Rhos Rug, yn 26 oed, wedi iddo frwydro mor galed yn erbyn ei salwch. Derbyniodd driniaethau am amser maith yn Ysbyty Gwynedd a'r 'Royal' yn Lerpwl ac fe fu ei deulu a'i ffrindiau yn gymorth mawr iddo.

Roedd Nigel yn ofalwr am y Sefydliad Coffa a'r Clwb Snwcer a chymerai ei waith o ddifri. Bydd colled fawr ar ei ôl a thalwyd teyrnged iddo yn ôl y nifer o alarwyr a oedd yn bresennol yn ei angladd.

Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf i'w fam, Mrs Gertie Kirkpatrick, ei fodryb a'i ewythr, Cledwyn ac Elen Jones, Hafan Elan, a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Cymdymdeimlwn hefyd â Mrs Gaynor Owen, Lliwedd, Ffordd Glan-moelyn a Mr Elfed Parry, Cwm-y-glo, ar golli eu mam, Mrs Beryl Parry, Hafan Elan. Brodor o Gwm-y-glo oedd Mrs Parry ond wedi cartrefu yn Hafan Elan ers blynyddoedd bellach. Bydd colled fawr i'r teulu a'r cymdogion a ffrindiau lleol.

**Marw yn Awstralia:** Ar Hydref 6 bu farw yn ei gartref yn Sydney, yn 90 oed, Tom Roberts (twm Ty 'Rardd, Llanrug). Aeth i Awstralia yn un ar hugain oed, yn 1925, gyda Wil Williams, Chwarel Goch, Dinorwig, a Howell Jones, Llanrug (brawd Mrs Hanna Dora Jones, gynt o Fryn Coch, ac yn awr o Llys Eiddon). Aeth y tri i weithio i Chwarel y Goulbourne, gyda llawer eraill o ardal Nantlle a Thal-y-sarn. Byddai Tom yn ymweld â Chymru, ac â Llanrug, yn aml, a thra parhaodd ei iechyd. Yn Awstralia priododd â Marie Jones o Abercynon. Cyfarfu'r ddau yn y Capel Cymraeg yn Sydney. Gadawodd ar ei ôl un mab a thair merch, Trefor, Gwyneth, Shirley a Glenys. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn Amlosgfa Sutherland.

**Marwolaeth:** Ar Fedi 29 bu farw Mrs C. E. Roberts, Hedsor Villa, Llanrug, yn 98 oed. Fe'i ganwyd yn Efail Newydd, Pontrhythallt a threuliodd rhai o flynyddoedd ei phlentyndod yng Nghwm-y-glo cyn setlo gyda'i thelu yn Hedsor Villa.

Hi oedd aelod hynaf Capel y Rhos a bu'n aelod ffyddlon o eglwysi'r Glasgoed ac yna Pontrhythallt ar hyd ei hoes. Adroddai'n aml iawn ei hatgofion plentyn o gyfarfodydd adeg Diwygiad 1904-05.

Bu'n hyfforddi fel nyrs yn ysbyty'r 'Royal Eye' ym Manceinion yn ystod blynyddoedd y Rhyfel Byd Cyntaf a chofiai'r llu o filwyr ifanc a gludwyd yno wedi eu dallu yn ffosydd Ffrainc. Dychwelodd yn fuan wedi hynny i Hedsor Villa i gadw tŷ i'w thad, y diweddar John Morris Jones, pan adawyd ef yn ŵr gweddw, ac i fagu ei chwiorydd ifanc. Priododd â Griffith Roberts a bu fyw yn Hedsor Villa hyd at fisoedd olaf ei hoes.

Cydymdeimlwn â theulu Hedsor Villa oll yn eu profedigaeth o golli mam, nain a hen nain annwyl.

**Diolch:** Dymuna teulu y ddiweddar Mrs C. E. Roberts, Hedsor Villa, ddatgan eu diolch diffuant i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am eu cydymdeimlad â hwy yn eu profedigaeth. Diolch hefyd i'r Parchedigion John Pritchard a James Clarke am eu gwasanaeth ddydd yr angladd.

**Brysiwch wella** Mr John Owen, Penrhyn Bach, sydd wedi bod yn Ysbyty Gwynedd am gyfnod, a dymunwn adferiad buan iddo. Hefyd dymunwn wellhad buan i'w chwaer, Mrs Gwyneth Boyer sydd yn aros gyda'i mherch, Nan Humphreys, yn Nhanycoed.

**Noson Goffi:** Cynhaliwyd Nosn Goffi, nos Fawrth, 18 Hydref, yn yr Ysgol Gynradd i godi arian i anfon Steffan Price Jones, Llys Eryri, Ffordd yr Orsaf, i ganolfan arbennig yng Ngwlad yr Haf. Mae gan Steffan anhawsterau ac anghenion arbennig ac i gefnogi ei rieni i aros yn y ganolfan yn achlysurol dros gyfnod o flwyddyn fe drefnir gweithgareddau ychwanegol yn ystod y flwyddyn. Bu'r Noson Goffi yn hynod o lwyddiannus a gwnaed elw o £1,640. Dymuna Aled, Bethan a Steffan ddiolch o galon am gefnogaeth i'r noson. Diolch yn arbennig i brifathro a staff yr Ysgol Gynradd; staff y gegin; ac i bawb am eu gwasanaeth ar y noson; ac am y rhoddion hael i'r raffl.

Diolch yn fawr hefyd i Gwilym Williams o Fethel a redodd yn ras noddedig Antur Waunfawr ac i'r noddwyr am eu haelioni.

Bydd noson yng nghwmni Dafydd Iwan yn nhafarn Penbont ar nos Fercher, 9 Tachwedd, a'r elw at yr un gronfa. Cofiwch gefnogi.



*Tom Roberts a fu farw yn ddiweddar yn Sydney, Awstralia.*

**Newyddion o'r Ysgol Gynradd:** Aeth Blwyddyn 5 ar daith dilyn afon o'r mynydd i lawr i'r Cei yng Nghaernarfon fel rhan o'u thema 'Dŵr'. Cawsant fore wrth eu bodd yn arsylwi ac yn dysgu am eu bro.

Mynychodd Bl. 5 a 6 gyrsiau arbrofi gwyddoniaeth a thechnoleg ar drydan yn y Coleg Normal. Noddwyd y gwrs gan Telecom a MANWEB.

Nos lau, Hydref 20, cynhaliwyd Noson Goffi er budd Steffan. Cawsom noson ardderchog gyda chyfanswm o £1,640. Diolch i bawb am eu cefnogaeth. Diolch i blant yr ysgol hefyd gyfrannodd £35 o'u harian a enillwyd yn yr eisteddfod bentref i Steffan; a bore Gwener fe gasglwyd £84 yng ngwasanaeth Diolchgarwch yr Ysgol.

Mae tymor yr Urdd wedi ailddechrau unwaith eto. Cafwyd dau gyfarfod eisoes — Gêmau Potes a Bingo. Bydd noson o dân gwyllt ar Dachwedd 7, yn rhad ac am ddim i'r aelodau a 25c i blant eraill. **Ni chaniateir i blant ddod â'u tân gwyllt eu hunain.**

Ar Dachwedd 3, am 7 o'r gloch, bydd Sioe Ffasiwn yn neuadd Ysgol Brynrefail wedi ei threfnu gan Ffrindiau'r Ysgol. Pris mynediad yn £1.

Enillwyr Clwb Cyfeillion am fis Hydref — 1, Eirian Howells, 15 Stad Garnedd, Star, Môn; 2, Bethan Rhian Williams, 20 Nant y Glyn; 3, Llywelyn Williams, Sŵn y Gwynt; 4, Mai Davies, Bodawel; 5, Sharon Blanchard, Dolwen.

**Mae canlyniadau llawn Eisteddfod Bentref Llanrug i'w gweld ar dudalen 18.**

GWASANAETH TACSI
HURIO BWS MINI
CABS LLANRUG
Ffôn: Caernarfon
675951
Prisiau Cystadleuol – Gwaith Contract – Pell ac Agos

Emyr Jones
PLYMAR A PHEIRIANNYDD GWRESOGI
Cynnal boileri nwy, olew, tanwydd solat a thredio peipiau
44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon 673513

*Y Parchedig Idris Thomas, Trefor, yn sôn am fore Sadwrn nodedig iawn ar ben yr Wyddfa yng nghwmni aelodau Plwyf Llanberis ac eraill ;*

# 'A MYND Â HWY I FYNYDD UCHEL'

***Trên bach yr Wyddfa'n pwffian***
***I fyny'r mynydd mawr,***
***Gan ddringo'n araf, araf,***
***I'r copa ymhen awr.***

**Mae cannoedd o blant Cymru wedi adrodd y pennill uchod o waith Selwyn Griffith mewn llu o eisteddfodau, ac ar fore Sadwrn, 4 Medi, daeth y pennill yn fyw i dros gant ohonom wrth inni fynd i ben yr Wyddfa. Yr achlysur oedd un o weithgareddau egnïol codi arian aelodau Eglwys Sant Padarn Llanberis, er budd Apêl y Tŵr. Cynhelir digwyddiadau yn fisol gan y pwyllgor apêl a syniad ardderchog oedd trefnu i ddau drên gario criw o bobl i gopa'r Wyddfa, gyda'r apêl yn elwa'n ariannol trwy drefniant gyda chwmni lein bach yr Wyddfa.**

Er fy mod wedi bod i ben yr Wyddfa ar lawer achlysur ar droed, dyma'r tro cyntaf imi fynd yno ar y trên bach. Bûm yn gyfarwydd â'r Wyddfa ers fy ngeni oherwydd gallwn ei gweld yn glir o'm cartref yn Ninorwig. Roeddwn hefyd yn gyfarwydd â sŵn pwffian y trên bach, o fis Ebrill hyd ganol mis Hydref, wrth iddo bwffian ei ffordd ei fyny'r mynydd mawr. Rhyfeddol yn aml y canfod fod pobl sydd wedi byw yng nghysgod ambell i fynydd heb erioed eu troedio, heb sôn am gyrraedd y copa. Faint o drigolion Llanberis a fu ar ben yr Wyddfa; faint o drigolion Trefor a Llanaelhaearn a fu ar ben Tre'r Ceiri; a faint o drigolion Dolgellau a fu ar Gader Idris? Wrth drefnu taith fel hon fe fanteisiodd llawer o bobl ar y cyfle i fynd i gopa'r Wyddfa.

Wrth drefnu taith o'r fath ar ddiwrnod penodol mae ffactor y tywydd yn chwarae rhan bwysig. Wedi i bawb ymgasglu yn stesion y trên bach ar y bore Sadwrn hwnnw roedd y glaw wedi peidio ac roedd hyd at hanner y ffordd i ben yr Wyddfa yn glir. Ond gwyddem oll mai mwy o law oedd i ddod, a hwnnw mae'n debyg yn ein cyfarfod ar y copa. Cafodd yr Esgob, ynghyd â theulu o Galifornia a minnau, adael ein ceir yng nghartref Mrs Audrey Evans a'i phriod yn rhif 2 Bryniau Gerddi, Llanberis, sef tafliad carreg o'r stesion.

Ar ôl cyfarfod hwn a'r llall, gyda'r Esgob yn cyfarfod â Mr Derek Rogerson, rheolwr Rheilffordd yr Wyddfa, dyma eistedd i lawr yng ngherbyd y trên a oedd i gychwyn rai munudau wedi deg. Er mai o blwyf Llanberis yr oedd y mwyafrif o'r teithwyr roedd yn rai wedi ymuno o blwyfi eraill yn yr esgobaeth. Ymysg y teithwyr hefyd roedd gohebydd y *Daily Telegraph* ac Emlyn Lewis, un o ohebwyr Radio Cymru.

O ran tywydd roedd rhan gyntaf y daith yn iawn. Roedd modd gweld ardaloedd y dyffryn yn glir ac roedd y rhaeadr nid nepell o'r stesion yn olygfa werth ei gweld. Cefais y fraint o eistedd ym mhen blaen y cerbyd gyda'r giard yn gwmni difyr. Rhoddodd wybodaeth lawn inni am hyn a'r llall — hen Gapel Hebron, Cwm Hetiau, defaid yr Wyddfa, a hyd yn oed am y glo a yrrai'r trên. Roedd rhai cerddwyr i'w gweld yn y glaw yn ymlwybro tua'r copa — ond y bore hwn i mewn yng ngherbyd y trên bach oedd y lle gorau. Ymhen llai nag awr cyraeddasom y copa ac yno i'n croesawu yr oedd niwl trwchus, glaw, cerddwyr eraill, a chynhesrwydd y gwesty.

Ar ôl cyrraedd y copa dyma fynd i mewn i'r gwesty. Chwarae teg i'r rheolwr roedd wedi neilltuo un rhan o'r gwesty ar ein cyfer, ac yno y cawsom baned i'n cynhesu a chyfle i sgwrsio. Yn naturiol, ar fore gwlyb, roedd llond y lle o gerddwyr — pawb gyda'i *anorak* a'i offer priodol.

I ddiben y gwasanaeth dyma benderfynu mynd i un o gerbydau'r trên a oedd gerllaw'r gwesty. Yno, yn lle ar y copa, y cawsom ein hoedfa — ar ben y mynydd uchaf yng Nghymru a Lloegr — un o fynyddoedd Esgobaeth Bangor a Deoniaeth Arfon! Wrth roi cyflwyniad i'r gwasanaeth soniodd y Deon Gwlad na allai'r Esgob (ar droed beth bynnag) fynd yn uwch na hyn yn ei esgobaeth.

**Cefnogwch ein Hysbysebwyr**

Canwyd dau emyn: 'Cofiwn am gomisiwn Iesu' a 'Diolch i Ti, yr Hollalluog Dduw' i gyfeiliant dau drympedwyr o Fand Trefor, sef Elfyn Williams a Rhodri Tomos; a chafwyd datganiad offerynnol gan y ddau yn ystod y gwasanaeth.

Roedd y darlleniad a'r weddi ar y thema 'mynydd a mynyddoedd' wedi eu paratoi gan y Deon Gwlad; y darllenydd oedd Mr Derek Jones gyda Mrs Audrey Evans yn offrymu'r weddi — y ddau yn aelodau o Eglwys Sant Padarn. Cafwyd gair pwrpasol yn ôl yr arfer gan yr esgob Barry Morgan, a'r fendith ar y diwedd.

Er nad yw cerbyd trên yn fan delfrydol i gynnal gwasanaeth roedd y cyfan a graen ddefosiynol iddo gyda'r holl addolwyr yn ymuno yn y moliant.

Ar ôl y gwasanaeth dyma bawb yn mynd yn ôl i'w seddau, er mwyn i'r ddau drên ein hebrwng i lawr i Lanberis. Roedd honno hefyd yn daith bleserus ac yn llawn hwyl ac asbri. Ni tharfodd y glaw ar yr hwyl o gwbl — yn wir roedd ein cymdeithas â'n gilydd yn heintus. Ysgwn i faint o bartïon ar daith i ben yr Wyddfa sy'n barod i gynnal gwasanaeth Crefyddol yno. Cawn gyfle eto ar ddiwrnod braf i wneud yr union beth a wnaethom ar 4 Medi.

Diolchwn i Mrs Audrey Evans, warden Eglwys Sant Padarn, ac i Mr a Mrs Brian Wakenham, o'r plwyf am wneud y tocynnau a'r posteri, ac am werthu tocynnau a threfnu'r daith er budd Apêl y Tŵr ac i ninnau allu mwynhau bore o gwmnïaeth hyfryd.

Daw pobl o bedwar ban y byd i deithio ar drên bach yr Wyddfa. Hyfryd o beth oedd mai pobl yr ardal, gan mwyaf, oedd yn defnyddio'r holl gyfleusterau, a bonws ychwanegol pwysig iawn oedd moli Duw ar y copa am ei greadigaeth, a holl hyfrydwch y greadigaeth honno i'w gweld yn yr Wyddfa a'i chriw.


**GWYNETH ROBERTS**
**84 Stryd Fawr, Llanberis**
**Ffôn: 870491**



CAFFI "BWYTY ERYRI
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati
Peis, Rholiau Sosej
Pasteiod, Teisennau Hufen
Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

**BECWS ERYRI**
**Stryd Fawr, Llanberis 870491**


Dyma'r weddi a offrymwyd ar ben yr Wyddfa a gyfansoddwyd yn arbennig i'r achlysur gan Ddeon Gwlad Arfon:

*Diolch i Ti, o Dduw am y fraint a'r wefr heddiw o'th addoli di ar ben yr Wyddfa, y mynydd uchaf yng Nghymru. I ben y mynydd hwn y daw miloedd o bobl bob blwyddyn, yn enwedig yn yr haf, a chawn ni heddiw, ar y Sadwrn cyntaf hwn o fis Medi, brofi rhamant a rhin y lle arbennig hwn. Fel y clywsom yn y darlleniad, y mae mynydd a mynyddoedd wedi chwarae rhan bwysig yn yr Ysgrythurau, yn hanes cenedl Israel gynt ac yn hanes yr Arglwydd Iesu a'i ddisgyblion. O ben yr Wyddfa fel hyn fe welwn o'n cwmpas dy greadigaeth di. Fe welwn dy harddwch, a hynny am filltiroedd i lawr at y glannau ac i gyfeiriad Iwerddon ac ynysoedd eraill.*

*Heddiw gallwn oll ddweud gyda'r Salmydd ein bod ninnau wedi 'dyrchafu ein llygaid i'r mynyddoedd' ond yn fwy na dyrchafu dod yma ar y copa i ymfalchïo yn dy greadigaeth. Boed i bob cerddwr, pob teithiwr trên, a phob dringwr, barchu'r Wyddfa a'i chriw er mwyn i genedlaethau a ddaw brofi y wefr a brofwn ni. Diolchwn i ti am yr orig hon ar gopa'r Wyddfa. Yn dy enw. Amen.*

## Ddeunaw mlynedd yn ôl. . .

*Ym mis Tachwedd 1976 cyhoeddodd yr Eco bod Cyngor Cymuned Llanberis wedi dod yn ymddiriedolwyr y les ar Angorfa, Stryd y Ffynnon, hen gartref y llenor T. Rowland Hughes. Er mwyn talu am adnewyddu'r tŷ, a sefydlu ynddo amgueddfa i goffáu'r llenor a'i waith, bwriedid lansio apêl genedlaethol.*

Mae'n amlwg bod clwyf yr acronym wedi dechrau cydio nôl yn y saithdegau. Erbyn heddiw wrth gwrs, mae'r byd addysg a'r byd gwleidyddol yn llawn ohonynt. Ydach chi'n cofio MAGA? MAGA oedd Mudiad Addysg Gyflawn Arfon, a ffurfiwyd gan rieni a charedigion Ysgolion Uwchradd Brynrefail, Dyffryn Nantlle a Chaernarfon. Sefydlwyd y mudiad er mwyn ymgyrchu dros yr addysg orau i blant yr ardaloedd hyn. Y gobaith oedd sicrhau adnoddau ac adeiladau o'r radd flaenaf i'r ysgolion, yn ogystal â sicrhau addysg berthnasol i anghenion y gymdeithas. Roedd cael yr addysg honno drwy gyfrwng y Gymraeg yn flaenoriaeth i'r Mudiad, a bwriedid ymgyrchu dros gael rhagor o bynciau wedi eu dysgu trwy gyfrwng yr iaith.

*Agorwyd y lôn newydd heibio i bentref Brynrefail, a hynny'n golygu bod pont newydd dros yr afon ym Mhen Llyn. Roedd yr hen bont wedi cael ei defnyddio ers 150 o flynyddoedd. Roedd yr olygfa o'r hen bont wrth gwrs yn un o'r rhai godidocaf yn yr ardal. Er mai gwibio heibio dros y lôn newydd a wnawn heddiw, gellir loetran o hyd ar yr hen bont os mynnir.*

Roedd y gwaith adeiladu yn mynd rhagddo yn hen chwarel Dinorwig, a pheiriannau trymion wrthi'n cloddio'r twneli ar gyfer yr orsaf drydan. O'r 1,200 o weithwyr ar y safle honnai'r Bwrdd Canolog Cynhyrchu Trydan bod 89% ohonynt yn weithwyr lleol.

# LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Camera yng ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: 872390



*Y tân-ddiffoddwr Cai Williams yn trosglwyddo siec o £187 i'r Meddyg O. P. Jones at y gost o brynu offer i Feddygfa Llanberis.*

**Undeb y Mamau:** Yn festri Eglwys St. Padarn ar brynhawn dydd Mawrth, 4 Hydref, cynhaliwyd cyfarfod misol Undeb y Mamau.

Cymerwyd y gweddïau gan Mrs Dilys Phillips. Y wraig wadd oedd Mrs Liz Perkins o Fangor a chafwyd gwledd o wybodaeth ganddi ynglŷn â phwysigrwydd Cymorth Cristnogol a'r Trydydd Byd.

Mrs Clara Roberts a Mrs Vember Cheeseman oedd yn gofalu am y baned, a diolchwyd iddynt ac i Mrs Liz Perkins gan Mrs Betty Williams a Mrs Hilda Wyn Williams yn eilio. Enillydd y raffl oedd Mrs Muriel Morris.

**Cymdeithas Eglwys St. Peris a St. Padarn:** Agorwyd y tymor newydd ar nos Iau, 8 Medi, dan lywyddiaeth Mrs Ann Parry-Jones. Arweinwyd yr aelodau mewn gweddi gan Mrs Nancy Jones, Stryd Newton. Gŵr gwadd y cyfarfod oedd Mr Hugh R. Jones, Bod Fair, a siaradodd yn huawdl ar destun 'Y Chwarel'. Cawsom hanesion lu ganddo, yn ddifri a doniol am yr amser yr oedd ef yn gweithio yn y sefydlian hwnnw. Cafwyd y baned arferol a'r raffl gan Mrs Moreen Lennon a Mrs Beryl Owen. Diolchwyd iddynt hwy ac i Mr Jones gan Mrs Betty Humphreys, ac enillwyd y wobr gan y Llywydd.

Gŵr gwadd mis Hydref oedd un o fechgyn yr Eglwys, Mr Cyril Jones, Stryd Newton, a'i destun oedd 'Yr Wyddfa'. Trwy ei sleidiau lliwgar aeth Cyril a ni am dro i fynny'r chwe llwybr sydd i gopa'r Wyddfa, gan ddangos y gwaith caled sydd yn cael ei wneud gan Wardeiniaid yr Wyddfa yn adnewyddu y llwybrau a'u diogelu ar gyfer y miloedd sy'n eu cerdded yn flynyddol. Misses Joyce a Sheila Foulkes oedd yn darparu y te a'r raffl y mis yma, a Mrs Olwena Morris yn lwcus. Mrs Margaret Griffith fydd yn gyfrifol am y tocynnau raffl eto eleni. Diolch yn fawr Margaret. Diolchwyd iddynt i gyd ac i Cyril gan y Parchg Gwynfor Williams.

**Enillwyr Clwb Ffrindiau Ysgol Dolbadarn am fis Hydref** — £35: Mrs S. Evans, Stryd Ianci (174); £25: Mrs E. Roberts, 15 Maes Padarn (151); £15: Mr S. Allsup, 15 Stryd Ceunant (184); £10: Mrs E. Evans, Craigwel (53); £5: Mrs Williams, Halford Hill (107).

**Yr Urdd:** Cafwyd tri chyfarfod yn ystod mis Hydref. Ar Hydref 5, cafwyd noson gofrestru i agor y tymor newydd. Ar Hydref 12 cafodd y plant hŷn helfa drysor a drefnwyd gan Mr Rhys ab Elwyn. Ar Hydref 19, cafodd y plant iau noson o gêmau wedi eu trefnu gan Mr Bryn Williams. Cofiwch os oes rhywun yn awyddus i helpu hefo gwaith yr Adran gadewch i ni wybod.

**Ysgol Dolbadarn:** Croeso nôl i Mrs Elisabeth Roberts ac i Mrs Nan Humphreys. Mae'n dda eich gweld wedi gwella. Bu'n rhaid cynnal etholiad i ddewis cynrychiolydd newydd i'r rhieni ar y Corff Llywodraethol, gan fod Mr Barry Thomas wedi ymddiswyddo. Diolchwn iddo am ei gyfraniad i waith y Corff ers rhai blynyddoedd bellach. Roedd yn dda gweld bod yna ddiddordeb yng ngwaith y Corff gan fod pedwar wedi sefyll yn yr etholiad. Diolch i'r pedwar a oedd yn fodlon i ymgeisio, a llongyfercha Dr Robin Parry ar gael ei ethol. Cynhelir Cyfarfod Blynyddol y Rhieni a'r Llywodraethwyr yn yr Ysgol ar nos Fercher, Tachwedd 2, am 6.30 o'r gloch. Estynnir croeso i holl rieni'r Ysgol i'r cyfarfod hwn pan fydd y Corff Llywodraethol yn cyflwyno ei adroddiad am waith y flwyddyn ddiwethaf. Bydd cyfarfod blynyddol Cymdeithas Ffrindiau'r Ysgol yn cael ei gynnal am 7 o'r gloch, yn syth ar ôl cyfarfod y Rhieni a'r Llywodraethwyr. Mae amser yn gwibio heibio; mae hanner tymor wedi cyrraedd yn barod. Cafwyd Gwasanaeth Diolchgarwch fore Gwener, Hydref 21. Roedd holl blant yr Ysgol yn cymryd rhan a gwahoddwyd y rhieni i ymuno yn y gwasanaeth. Gwnaed casgliad o £82 at Apêl Rwanda.

**Pêl-droed dan 11 oed:** Mae golwg wahanol ar un o'r ddau gae pêl-droed sydd ar Gae'r Ddôl erbyn hyn. Oherwydd rheolau'r Gynghrair i dimau dan 11 oed bu'n rhaid lleihau'r cae a'r goliau. Diolch i gwmni G. Ll. Jones am dorri'r goliau i'r maint cywir; dim ond gobeithio na fydd y Gynghrair yn penderfynu y flwyddyn nesaf bod rhaid gwneud y goliau yn fwy eto!! A diolch i'r rhai fu'n mesur ac yn ailfarchio'r cae.

**Capel Coch:** Cynhaliwyd yr Ŵyl Ddiolchgarwch dros ddau Sul eleni. Ar Hydref 16 cynhaliwyd cyfarfod gweddi yn ystod oedfa'r bore a phregethwyd gan y Parchg Gareth Maelor yn ystod oedfa'r hwyr. Cynhaliwyd gwasanaeth Diolchgarwch plant yr Ysgol Sul ar fore Sul, Hydref 23.

**Ymgyrch Plentyn y Nadolig:** Y llynedd anfonodd yr elusen hon 125,000 bocs sgidia wedi eu llenwi ag anrhegion Nadolig i blant bach mewn gwledydd fel Bosnia. Eleni, gobeithir anfon 250,000 bocs o anrhegion at blant yn Bosnia a Croatia. Mae Ysgol Sul Capel Coch ac Ysgol Dolbadarn yn bwriadu cefnogi'r ymgyrch eleni. Gwahoddir eraill i ymuno â ni yn yr ymdrech. Gellir anfon tegannau, pensiliau, sebon, brwsh dannedd, siocled ac anrhegion eraill yn y bocsus. Am ragor o fanylion cysylltwch â'r Parchg John Pritchard, Cilfynydd (Ffôn: 872390).

**Cronfa Goffa R. H. Owen:** Cyfarfu ymddiriedolwyr y Gronfa yn Nant Padarn, nos Fercher, Medi 14, dan lywyddiaeth Mr Ieuan Ellis Jones. Talodd ef deyrnged i sylfaenydd y Gronfa, y diweddar Mr Aled Owen. Trafodwyd y ceisiadau am gymorth o'r Gronfa a llwyddwyd i godi lefel y cymorthdâl i'r ymgeiswyr llwyddiannus.

**Dymuniadau da:** Pob llwyddiant i ti, Stephen, ar ddechrau dy yrfa yng Ngholeg Caerdydd, oddi wrth Mam, Dad, ac Alison, 93 Maes Padarn.

**Priodas:** Ar y 15fed o Orffennaf priodwyd Nerys Wyn Jones, merch ieuengaf Richard Kenneth Jones (Seattle) a'r ddiweddar Mrs Mairwen Jones, â Rick Sellars, California. Pob lwc a bendith i'r ddau.

**Diolchiadau:**

Dymuna Mr Richard Kenneth Jones (Seattle) ddiolch yn fawr iawn i'w deulu, cymdogion a ffrindiau, Côr Dyffryn Peris, a Hogia'r Wyddfa, am y cardiau a dderbyniodd tra bu'n wael yn ddiweddar.

Dymuna Elisabeth (Bessie) Roberts, 10 Stryd Turner, ddiolch o galon i'w theulu, cyfeillion, cymdogion, aelodau'r eglwysi St. Peris a St. Padarn, ac i lawer o'i chyn-ddisgyblion, am yr holl ddymuniadau da, cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 oed yn ddiweddar. Gwnaethant yr achlysur yn un arbennig iawn.

Dymuna Alwyn Owen, 3 Stryd yr Wyddfa, ddiolch o galon i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, anrhegion a galwadau ffôn a dderbyniodd tra bu yn Wardiau Glyder ac Enlli yn Ysbyty Gwynedd. Diolch hefyd i'r meddygon a staff Meddygfa Llanberis am eu gofal arbennig.

Dymuna Mrs Myfanwy Jones, Llys Eryri, ddiolch o galon i'w ffrindiau ac i'r teulu am y caredigrwydd mawr a dderbyniodd tra yn yr ysbyty. Diolch yn arbennig i'r meddygon yn Waunfawr, ac i bawb yn Wardiau Gogarth a Glyder yn Ysbyty Gwynedd.

Dymuna Mrs Nellie Morris, 76 Maes Padarn, ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau am y cardiau a'r blodau a dderbyniodd tra'n derbyn llawdriniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Dymuna Ieuan a Morfudd Ellis Jones, Erw'r Coed, ddiolch yn gynnes iawn i'w cymdogion a'u holl ffrindiau am eu caredigrwydd tra bu'r ddau yn yr ysbyty yn ddiweddar. Diolch o galon am yr ymweliadau, anrhegion, cardiau a'r galwadau ffôn dirifedi. Diolch arbennig i Dr Raymon Williams, Waunfawr, a meddygon a staff Wardiau Hebog a Tryfan yn Ysbyty Gwynedd.



*J. Jones, Llanberis yn cyflwyno siec, ar ran Cymdeithas Diogelu Hen Beiriannau Amaethyddol Gogledd Cymru, i Helen Wyn Jones, Swyddog Rhanbarth Llanberis a Glenys Parry, Comisiynydd Cynorthwyol Gwynedd o Urdd St. Ioan.*

Gwynedd Hotel & Restaurant
Llanberis 870203
Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, pen-blwydd a phob achlysur arbennig arall.
Gallwn drefnu adloniant - disgo a.y.y.b.
Bwydlen Bar a Restaurant
Cinio Dydd Sul

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD
BANGOR
354646

## YR AFON WERDD (2)

### gan Y Gwalch

Sylwais eu bod tua'r un oed, ac yr oedd eu tebygrwydd yn syfrdanol. Galwasant arnaf i ddod i'r lan ac ymuno â hwy ar y lawnt. Ufuddheais innau'n fud; yn wir, credais na ddywedais air am rai munudau. Nid oedd arwydd o chwilfrydedd yn agos atynt; derbyniasant fi fel rhyw westai yr hir ddisgwylid amdano.

Canfûm, o wrando ar eu sgwrs, mai efeilliaid oeddynt, a'u bod yn byw mewn *chateau* yng nghanol y gerddi hynny. Eu henwau oedd Jean a Nocole. Daeth yr eneth â diod i mi mewn gwydr, a chefais wahoddiad i chwarae pêl â hwy ar y lawnt. Mwynheais fy hun yn eu cwmni gan anghofio pob dim arall.

Yn y diwedd, a minnau wedi blino ar y chwarae, aethom i eistedd ar ymyl y ffynnon. Syllais ar y ferch. Roedd hi mor swynol, a rhyw awgrym o'r Dwyrain yn ei gwedd a'i hosgo. Dymunwn ei hanwesu a cherdded gyda hi law yn llaw hyd lan yr afon a chanfod rhagor amdani a'i hamgylchedd rhyfedd. Sylweddolais, fodd bynnag o dan yr amgylchiadau, y buasai hynny yn beth anodd. Roedd yn hawdd canfod fod y brawd a'r chwaer yn anwahanadwy. Yna o'r tu draw i'r coed daeth sŵn dieithr.

'Dyna ein tad yn galw arnom â'r corn hela,' meddent, 'bydd yn rhaid i ni fynd. Gwell fydd i chwithau fynd hefyd, ond nid ar yr afon y tro yma.'

Roeddwn ar fin gofyn a gawn aros ar y lawnt hyd eu dychweliad ond, fel pe buasai wedi dirnad fy mwriad, gafaelodd yr eneth yn fy mraich ac arweiniodd fi ar rodfa raiannog.

'Cerddwch ar hyd y rhodfa yma,' medda, 'ac fe ddowch at lidiardau haearn. Byddant yn agored. Gallwch fynd drwyddynt i'r heol.'

Cyn i mi gel cyfle i ateb roedd hi wedi gollwng fy mraich a rhedeg i ffwrdd gan alw *'au revoir'* tros ei hysgwydd. Yna, diflannodd i'r coed. Arhosais innau yn y fan am ysbaid wedi fy llwyr syfrdanu, ond eto yn hapus. Dilynais ei chyfarwyddiadau o'r diwedd, a deuthum at y llidiardau haearn. yr oeddynt yn anferth, a thu draw iddynt roedd yr heol. Gwnes adduned i ddychwelyd trannoeth, a phob dydd os oedd angen i weld Nicole, ac er mwyn hwyluso fy nychweliad, gwnes sylw arbennig o'r llidiardau. Roeddent yn dduon, ac ar bob hanner roedd darn o arfbais. Pan oedd y llidiardau ynghau roedd y ddau hanner yn uno i gyfannu llew ac ibecs ar faes glas, ac oddi tanynt y geiriau Lladin: *SEMPER EADEM.*

Ychydig a gysgais y noson honno gan gymaint a feddyliwn am ddigwyddiadau'r dydd, ac am Nicole a'r ardd ym Montmarte. Disgwyliais y wawr, a phan ddaeth y dydd o'r diwedd, cychwynnais ar fy nhaith i dreulio diwrnod arall yn ei chwmni. Efallai y tro yma y gallwn ei pherswadio i ddod gyda mi allan i'r ddinas.

Neidiais ar gerbyd a'm cludodd i ben yr heol goediog lle'r oedd y llidiardau. Prysurais ar ei hyd gan ddisgwyl dod wyneb yn wyneb â'r pyrth hynny y tu draw i bob trofa, ond nid oedd unrhyw byrth o'r fath i'w canfod ar hyd na lled yr heol honno. Cerddais i fyny ac i lawr amryw o weithiau, ac yn y diwedd holais rai o'r bobl oedd yn mynd heibio. Roedd eu hatebion yn unfryd: doedd yna ddim pyrth na chastell chwaith o fewn milltiroedd i'r lle. Yn fy syndod a'm siomiant eisteddais ar fainc, ac yno cofiais yn sydyn am yr afon; dyna'r ffordd i'r ardd yn siŵr. Ond serch i mi chwilio i fyny ac i lawr holl fynedfeydd Montmartre, ni allwn ganfod y llwybr a aeth a mi at lan yr afon werdd, ac erbyn hyn roeddwn yn teimlo yn sigledig ac ansicr.

Dychwelais, fodd bynnag, yn feunyddiol i'r heol ym Montmartre, gan holi a chwilio am yr afon a'r castell, ond doedd neb a allai fy nghynorthwyo. Dechreuodd pobl amau fy mhwyll, a bu'n rhaid i mi gadw draw o'r ardal.

Erbyn hyn roedd Fremant wedi dadebru yn llwyr. Eisteddodd o flaen y tân a thaniodd sigarét a thawelodd.

'Profiad amheuthun iawn,' meddwn i o'r diwedd. 'Chefais ti ddim eglurhad bellach gan rhywun?'

'Dim, dim o gwbl,' meddai. 'Fel mater o ffaith, roeddwn yn dechrau anghofio'r peth, hynny yw, nes y digwyddodd rhywbeth a agorodd y dirgelwch yn fy meddwl eilwaith.

Y gaeaf diwethaf roeddwn mewn gwasanaeth coffa i'r milwyr yn Notre Dame. Roedd fy nghyfaill Georges yno hefyd yn cynrychioli un o'r papurau newydd. Ar ôl y gwasanaeth aeth y bobl allan, ac yn yr heulwen wannaidd gosododd rhai ohonynt groesau bychain yn y lawnt gerllaw, er cof am eu colledigion. Yna, o un i un aethant ymaith. Roeddwn innau ar fedr gwneud yr un peth pan sylwais ar ferch yn dod yn araf at lannerch y croesau. Gafaelodd Georges yn fy mraich a'm tynnu o'r neilltu at y drws. O'r fan honno gwelsom eneth dywyll ei phryd, a wisgai ddillad duon a fêl, yn gosod croes ymhlith y lleill ac ymgroesi. Yna trodd a cherddodd yn osgeiddig i lawr yr heol.

O chwilfrydedd aethom ninnau at y croesu ac edrychais ar ei chroes hi. Ar ddarn o fetel wedi ei sicrhau wrth y coedyn roedd y geiriau: 'I'm brawd, Jean Leraux. Semper Eadem'.

Heb ddweud gair wrth fy nghyfaill rhuthrais drwy'r llidiart, ond roedd y ferch wedi diflannu. Rhedais i lawr yr heolydd gan obeithio cael cip arni yn rhywle, ac yn y diwedd canfyddais fy hun gyferbyn â'r fynedfa i'r Metro, a'r funud honno fe'i gwelais hi yn mynd i lawr y grisiau o dan y ddaear. Rhwystrwyd fi rhag croesi am funudau gan y drafnidiaeth, ond erbyn i mi gyrraedd yr ochr arall doedd yna ddim arwydd ohoni. Rhedais i lawr y grisiau, a phan gyrhaeddais yr orsaf yr oedd yno drên ar gychwyn. Wrth i mi syllu i mewn i'r trên symudodd ymaith ac ymhen eiliad roedd y twnnel wedi ei llyncu. Gofynnais i rywun i ble roedd y trên hwnnw yn mynd. I ogledd y ddinas i gyffiniau Montmartre. Dringais y grisiau i olau dydd yn hurt a chynhyrfus.

Ni ddywedodd Fremant ragor am funud. Yna toc, 'Nid ydych yn fy nghoelio mi wn.'

'Ydwyf.' Welais i erioed fawr ddrwg yn y celwyddau bychain.

Ni chawsom fawr amser wedyn i ddatblygu ein cyfeillgarwch. Pan ddaeth awr yr ymadael addawodd Gaston ysgrifennu ataf i Lydaw, a soniais innau fy mod yn debygol o ymweld â'r brifddinas yn nes ymlaen. Daeth ei lythyr yn fuan ac atebais innau. Parhaodd yr ohebiaeth hyd y flwyddyn newydd yna, yn sydyn, daeth i ben heb unrhyw eglurhad o'i gyfeiriad ef.

Yn y gwanwyn bu'n rhaid i mi fynd i Baris. Ar ôl gorffen fy musnes penderfynais fynd i weld Gaston yn ei gartref ger y Tuilleries. Canfûm y tŷ yn digon hawdd, ac atebwyd y drws gan hen fonheddwr â barf bigfain ganddo. Wedi deall pwy oeddwn gwahoddodd fi i mewn, ac yno cyfarfûm â'i wraig. Deellais mai rhieni Gaston oeddynt, a theimlais ar unwaith fod y ddau yn anesmwyth yn fy nghwmni. Yr oeddwn ar fin gofyn hynt Gaston pan estynnodd yr hen ŵr win i mi, ac wrth iddo dywallt sylwais fod ei law yn crynu.

'Clywais Gaston yn sôn amdanoch droeon,' meddai o'r diwedd. 'Credaf fod ganddo feddwl mawr ohonoch.'

Estynnodd y gwin i mi ac yna cerddodd ar draws yr ystafell a chan roi ei ben i lawr ychwanegodd:

'Ydi, mae Gaston wedi marw wyddoch chi. Damwain oedd hi. Fe'i cafwyd un bore wedi boddi rhwng un o'r ysgraffau a'r lan mewn camlas ym Montmartre.'

Teimlais rhyw oerni yn fy ngherdded. Ni wyddwn â oeddynt hwy yn gwybod ei hanes ai peidio, a gadewais hwy yn y diwedd a gyda chymysgedd o deimladau euthum i'r orsaf. Yno, wrth ddisgwyl am y trên i Lydaw, dychmygais weld fy nghyfaill ar y noson farwol honno, yn canfod ei afon werdd, ac yn ceisio rhoi o'r lan i'r cwch a'i dygai at ei deg Nicole yn ei gardd yn Montmartre.

## HELYNT EFO'R DANNEDD GOSOD

**Damwain anffodus gadd gwraig o Ddeiniolen**
**Sy'n byw ers blynyddoedd ym Mhentre Helen;**
**Cafodd anffawd annifyr i'w dannedd top,**
**Ac ar fwyta rhai petha' bu'n rhaid rhoi stop.**

**I'r deintydd a nhw ddydd Mawrth, cyn dechra llnau,**
**A'r forwyn yn deud iddi nôl nhw ddydd Iau.**
**Fora dydd Iau, â'r dannedd n'ôl yn ei cheg,**
**Fedra'r wraig ddim hyd yn oed gyfri i ddeg.**

**Wrth ymyl Banc Lloyds, eu tynnu a wnaeth hi,**
**A'u dal yn ei llaw, rhag iddi gyfogi,**
**Daeth dwy ffrind heibio, a chlywed ei stori,**
**A deud, 'Wyt ti'n siŵr mai'r dannedd iawn gest ti?'**

**Yn ôl â hi ar unwaith i ddeud ei chwyn,**
**A'r dannedd a roddwyd yn llaw'r deintydd mwyn,**
**Aeth hwnnw ati i ymddiheuro'n fawr**
**Am roi iddi ddannedd rhyw ddyn o Waunfawr.**


FINE ART TRADE GUILD
ORIEL PLAS GWYN
**Pontrug, Caernarfon**
Gwasanaeth Fframio Lluniau o bob math ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau gwreiddiol gan Artistiaid Lleol
**Ar ffordd A4086**
**Caernarfon — Llanberis**
**Ffôn/ffacs: 0286 672619**
**Richard S. Humphreys**

ANTUR WAUNFAWR
SIOP GREFFTAU A CHAFFI ANTUR WAUNFAWR
**WEDI AILAGOR**
★ Anrhegion Nadolig lu
★ Basgedi Blodau Sych
★ Olew Aromatherapi
Ar agor LLUN – GWENER 9 a.m. - 4 p.m.

**GERAINT OWEN**
Gosodwr carpedi a phob math o loriau
**Cil-y-Mynydd**
**WAUNFAWR**
**Ffôn: Waunfawr 650552**

# WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

**Camera yng ngofal Heulwen Huws, Argoed. Ffôn: 650556**

**Clwb 300 Y Ganolfan:** Dyma enillwyr mis Medi – £40: Mrs H. Williams, 8 Croes-y-waun; £25: Betty Haeley, Llys Alaw; £10: A. M. Denton, d/o Ffridd Felan.

**Llongyfarchiadau**

**Dathlu Pen-blwydd:** Llongyfarchiadau i Nia Llwyd, Dôl-y-coed, ac i Gwenan Jones, Glyn Ceris, ar gyrraedd eu un ar hugain mlwydd oed. Dymunwn pob hapusrwydd i'r ddwy yn y dyfodol.

Llongyfarchiadau mawr i Mrs Lewis, Tŷ Ysgoldy, ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 90 mlwydd oed.

Dymuna Mrs Ellen Lewis, Tŷ Ysgoldy, ddiolch yn fawr iawn i'w theulu, cyfeillion a chymdogion am y llu o ddymuniadau da, cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed. Diolch arbennig i'w theulu am y parti pen-blwydd a fwynhaodd yn eu cwmni ym Mron Eifion, Cricieth.

**Dathlu Pen-blwydd Priodas:** Llongyfarchiadau i Dewi a Beryl Lloyd Jones, Dol-y-coed, ar ddathlu eu Priodas Arian.

**Genedigaethau:** Yn ystod y mis ganwyd pedwar o blant bach yn y pentref.

Llongyfarchiadau i Lesley ac Ian Williams, Stad Tŷ Hen, ar enedigaeth merch fach, Gwenan Mair, chwaer fach i Ffion Haf, ac wyres fach i Mr a mrs T. H. Williams, Llwydiarth.

Ganwyd mab bychan, Daniel, i Yvonne a Roger Gossett, Stad Pant Waun, brawd bach i Mathew a Timothy ac ŵyr bach i Mr a Mrs Huw Parry, Bro Waun.

Daeth mab bychan Daniel Lewis a hapusrwydd i aelwyd Mia a Gwyn, Bodwyn, ŵyr bach i Mr a mrs Wielding, Ger-y-ffynnon.

Ganwyd mab bychan, Jamie, i Wendy a Jason Anderson, ŵyr bach cyntaf i Evelyn, Bod Afon, a gor-ŵyr i Mrs M. A. Owen.

Llongyfarchiadau a phob bendith i'r pedwar teulu a chroeso i'r rhai bach.

**Priodas:** Llongyfarchiadau i Tudur a Lyndsey Williams, Eirianallt, ar eu priodas yn Eglwys Betws Garmon yn ddiweddar.

**Bedydd:** Yng Nghapel Bethel, gyda'r Parchg S. O. Hughes yn gweinyddu, bedyddiwyd Owain Taliesin, mab bach Mandy a Ceirion Evans.

**Profedigaethau:** Dydd Iau, Medi 29, bu tri o angladdau rhai â chysylltiadau â'r Waun.

Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf i Mrs Eurgain Eames, Dolydd, yn ei phrofedigaeth o golli ei phriod, Mr W. J. Eames. Bu Mrs Eames yn athrawes yma yn y Waun am flynyddoedd cyn ymddeol i ofalu am Mr Eames.

Anfonwn ein cydymdeimlad hefyd i deulu Mrs Medwen Lloyd Jones a fu farw yn frawychus o sydyn. Magwyd Medwen yma yn y Waun gyda ni.

Fore Sul, Medi 25, brawychwyd trigolion y pentref gan y newydd trist am farwolaeth Mr David Owen, 1 Croes-y-waun. Er nad oedd wedi byw yn y pentref am gyfnod hir iawn, roedd yn amlwg wedi gwneud llawer o ffrindiau yma, ac yn barod iawn ei gymwynas iddynt. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i'w wraig, Betty Wyn, a'i fab bychan saith mlwydd oed, Ieuan, a'r teulu oll yn eu profedigaeth lem.

Cydymdeimlwn hefyd â Mrs Veronica Owen, Cilfynydd, yn ei phrofedigaeth o golli ei thad yn ddiweddar.

Bu farw Mr Evie Evans o Gaeathro, sef brawd Mrs Ray Hughes, Manchester House. Cydymdeimlwn â hi yn ei phrofedigaeth. Dymuna Mrs Ray Hughes ddiolch yn gynnes iawn am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddi ar ôl colli ei briod.

Cydymdeimlir hefyd â Miss Catherine Hughes, Dôl Afon, yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer.

**Croeso adref o'r Ysbyty:** Croesawn Mr Thurley, Stad Tref Eilian a Mr Malinson, Cae Adda, adref ar ôl treulio cyfnod yn yr ysbyty.

**Diolch:** Dymuna John Elwyn a Jane Roberts, 24 Bro Waun, ddiolch i'w ffrindiau a chymdogion am y cardiau, anrhegion, arian, a'r galwadau ffôn a dderbyniodd tra yn Ysbyty Gwynedd. Diolch i'r meddygon teulu a gweinyddesau'r ardal am eu gofal, ac i staff Ward Moelwyn am eu caredigrwydd. Diolch yn fawr.

**Gwasanaethau Diolchgarwch:** Cynhaliwyd y cyfarfodydd Diolchgarwch blynyddol yn y capeli. Llongyfarchiadau a diolch i'r plant a fu'n gwneud eu rhan mor dda.

**Y Gymdeithas Lenyddol:** Cynhelir y cyfarfod nesaf yn y Ganolfan ar nos Lun, Tachwedd 21ain, am 7.30 o'r gloch.

Y gŵr gwadd fydd y Barnwr Dewi Watkin Powell a'i destun fydd 'O dan fy Mhenwig' ac edrychir ymlaen am noson ddiddorol iawn. Llywydd y noson fydd Mr Gwilym Williams.

**Diolch:** Dymuna Mrs M. A. Owen, Bodarfon, Stad Tŷ Hen, ddiolch am bob caredigrwydd a dderbyniwyd tra bu yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref. Rydym yn falch o'ch gweld adref Mrs Owen ac yn mynd o amgylch yn y car.

**Yr Urdd:** Ailddechreuwyd y tymor ar nos Fercher, Medi 14, gyda noson i ymaelodi a chwaraeon yng nghwmni Gina ac Iris.

Medi 21 cafwyd tywydd ardderchog ar gyfer yr Helfa Drysor ar hyd llwybrau'r ardal. Diolch i Sylvia am wneud y trefniadau ac i'r mamau i gyd am ddod i gadw llygad ar y plant. Llongyfarchiadau i iwan, Ioan, Dulwyn, Tim, Ieuan a Shirley am ennill.

Medi 28: Cymorth Cyntaf a gafwyd yng nghwmni Nyrs Glenys Parry o Lanberis. Rwy'n siŵr i bawb elwa o gynghorion Nyrs Parry. Diolch iddi gan Ifan Glyn.

Hydref 5: Aethom allan ar ymweliad â Stiwdio Sain a chawsom ein tywys gan Eryl ac fe eglurodd inni bob dim sydd i'w wybod am recordio. Buom yn lwcus o gael cyfarfod â Bryn Fôn sydd ar hyn o bryd yn recordio yn Sain. Diolchwyd i Eryl gan Steffan Elidir. Diolch hefyd i'r mamau a'r tadau am y cludo.

Hydref 12: Dawnsio disgo, creadigol a gwerin fuom ni yn drio ei wneud gyda Gina, Siân a Rhian.

Nos Sadwrn, Tachwedd 5, am 6 o'r gloch bydd yr Urdd yn cynnal Noson Tân Gwyllt ger y Ganolfan. Bydd casgliad yn cael ei wneud ar y cae. Byddwn hefyd yn gwerthu cawl a chŵn poeth. Croeso cynnes i bawb.

**Clwb Bowlio:** Mae'r Clwb wedi ailddechrau wedi gwyliau'r haf. Daeth y tîm yn ail yn y gynghrair y tymor diwethaf a mawr hyderwn y byddant yn gwneud yn dda eto eleni – a dod yn gyntaf os yn bosib! Alfie Jones oedd y chwaraewr gorau yn y tîm a fo hefyd fu'n fuddugol am y darian a roddwyd er cof am Mr T. A. Thomas a oedd un o sefydlwyr y Clwb ac yn aelod ffyddlon iawn.

Cawsom gyfle i chwarae gyda thimau eraill o'r ardaloedd cyfagos mewn gêmau cyfeillgar, ac edrychwn ymlaen am gael llawer o'r rhain eto y tymor yma. Mae'r Clwb yn cyfarfod bob pnawn dydd Mawrth a dydd Iau am 2 o'r gloch ac ar nos Iau am 7 o'r gloch. Croeso cynnes i hen aelodau ac aelodau newydd i ymuno â ni.

**Plaid Cymru:** Mae cangen Plaid Cymru Waunfawr wedi trefnu rhaglen lawn o weithgareddau ar gyfer 94-95. Eisoes fe drefnwyd Sêl Cist Car ac fe gynhelir Ffair Nadolig (Rhagfyr 9fed); Noson Lydewig, yn cynnwys gornest bôn braich, yn Ionawr; a Helfa Drysor yn y gwanwyn. Mae gwahoddiad i bawb i'r cyfarfodydd a chroeso hefyd i'r rhai sydd am ymuno â Phlaid Cymru i gysylltu a Duncan Brown, Gwelfor (Waunfawr 650547).

**Diolch:** Dymuna Valmai a Paul, 21 Tŷ Hen, ddiolch i'w teulu a'u cyfeillion am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniasant ar achlysur eu priodas.

## ENILLWYR RAS YR ANTUR




*Gwynfor Owen, Tegid Robers a Francis Uhlman enillwyr rasus y dynion.*




*Rhiannon Tomos, Ann Cartwright a Sue Tregedo enillwyr rasus y merched.*

CANGEN YR URDD
WAUNFAWR

**Noson Tân Gwyllt a Choelcerth Fawr**

AR GAE GANOLFAN WAUNFAWR
am 6 o'r gloch

NOSON I'R TEULU CYFAN

BYDD CAWL A CHŴN POETH
AR GAEL AM BRIS RHESYMOL

Gwneir casgliad tuat at y gost

Gwesty
**Dolbadarn**
LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff.

# PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: 872407

**Camera yng ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. Ffôn: 677263**

**Urdd, Adran Bentref:** Bydd y tymor yn cychwyn ar nos Fawrth, Tachwedd 1af, am 6 o'r gloch yn y Neuadd Gymuned. Bydd cyfle i ymaelodi a chwarae gêmau bwrdd. Tâl aelodaeth yw £3. Gwerthir creision a diod ym mhob cyfarfod. Y swyddogion am eleni yw – Arweinydd: Mrs Elen Lewis; Ysgrifennydd: Mrs Carolyn Roberts; Trysorydd: Mrs Janice Jones.

**Cylch Meithrin:** Cynhaliwyd cystadleuaeth cynllunio cerdyn Nadolig ar ddiwedd tymor yr haf, gyda Mr Humphreys, priathro'r Ysgol Gymuned, yn beirniadu. Yr arlunydd buddugol yw Sioned Mai Griffiths, gyda'i llun o goeden Nadolig. Mae'r cerdyn yn awr wedi ei gynhyrchu ac mae ar werth, am £1.50 am baced o 10, i'w gael o'r Cylch Meithrin. Bydd yr elw yn mynd at y Cylch Meithrin.

**Trip i Gaer:** Mae'r Cylch Meithrin yn trefnu trip i Gaer ar **ddydd Sadwrn, Rhagfyr 3.** Bydd y bws yn cychwyn o Frynrefail am 7.25 a.m. ac o Benisarwaun am 7.30 a.m. Bwriedir aros am fwyd ar y ffordd adref. Enwau a'r arian (£5) i Carys Williams, Meini Gleision, Brynrefail; ffôn: 871754. Aiff yr elw i'r Cylch Meithrin.

**Clwb Ieuenctid:** Dymunir tymor llwyddiannus i'r aelodau a'u harweinydd newydd, Sheila Hinds. Bydd y Clwb yn cyfarfod ar nosweithiau Llun.

**Eisteddfod Bentref:** Cynhelir yr Eisteddfod Bentref ar **nos Wener, Tachwedd 25,** yn y Neuadd Gymuned am **6 o'r gloch.** Gofynnir am y Gwaith Llaw a'r Gwaith Ysgrifenedig i fod yn llaw Mrs Bronwen Jones, Cae Corniog Bach, **erbyn Tachwedd 11.** Bydd y coginio yn cael ei feirniadu ar ddiwrnod yr Eisteddfod o 4 o'r gloch ymlaen.

Dymunir pob hwyl ar y cystadlu gan obeithio am Eisteddfod lwyddiannus eto eleni.

**Pwyllgor Neuadd:** Mae'n hyfryd gweld defnydd helaeth yn cael ei wneud o'r Neuadd Gymuned a'r Ystafell Gymuned.

Cynhelir dosbarthiadau Cymraeg i ddysgwyr ddau fore ac efallai mwy yn y dyfodol.

Gobeithir croesawu'r Cylch Meithrin ambell fore yn y Neuadd.

Bydd Adran yr Urdd yn y Neuadd bob nos Fawr a'r Clwb Ieuenctid bob nos Lun.

Nos Iau, Hydref 20fed, bu cyfarfod o Antur Padarn yn yr ystafell gymuned am 7 o'r gloch.

Tachwedd 9fed bydd sgwrs ar 'Y Gyfraith – Cymru a Chymraeg' gan y Barnwn Dewi Watkin Powell yn y Neuadd Gymuned o dan ofal Plaid Cymru.

Tachwedd 25 fe gynhelir yr Eisteddfod Bentref.

Cynhelir 'Noson Calangaeaf' ar nos Lun, Hydref 31, yn y Neuadd Gymuned am 6.30 p.m. Bydd cystadlaethau fel y wrach orau, yr ysgub orau, jac lantarn, swynion a theisennau. Bydd cŵn poeth a diod ar werth ynghyd â raffl a tombola. Felly, dowch yn llu am hwyl a sbri.


Tynnwyd Clwb Cant mis Medi a'r enillwyr oedd: 1, W. Phillips, Tai Arthur; 2, D. Phillips, Tai Arthur; 3, Eurgain Haf. Tynnir Clwb Cant mis Hydref yn y 'Noson Calangaeaf'.

**Gwellhad:** Anfonir ein cofion annwyl at bawb sy'n sâl yn y pentref. Dymunir adferiad buan i Alwyn Jones, Racca, wedi'i driniaeth mewn ysbyty yn Lerpwl.

**Cydymdeimlo:** Hydref 5ed, bu farw Mrs Sydney Williams, Cae Howell. Estynnir y cydymdeimlad llwyraf i Gwyneth, Meira, June a Marie a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli mam, nain a ffrind annwyl.

Hydref 6ed, yn frawychus o sydyn, bu farw Mrs Rosemary Davies, Tyddyn Hendre. Cydymdeimlir yn ddwys iawn â'i gŵr Hugh a'r meibion, Julian ac Adrian, a'r teulu oll. Fe welir ei cholli gan nifer fawr o bobl ifainc a dreuliodd oriau lawer yn ei chwmni. Bu'n hynod garedig wrthynt yn eu cludo a'u hannog mewn nifer o gystadlaethau marchogaeth. Bu'n gefnogol iawn i'r ymgyrch i godi arian i Ddosbarthiadau Marchogaeth i'r Anabl.

**Ysgol Sul Bosra:** Pnawn Sul, Hydref 16eg, cynhaliwyd gwasanaeth Diolchgarwch gan athrawon ac aelodau'r Ysgol Sul. Diolchir i'r plant am ddysgu eu gwaith yn drwyadl gan olrhain hanes y mudiad elusennol OXFAM. Cafwyd anerchiad hyfryd gan y Parchg D. Iwan Davies, Bangor, gyda stori amserom am ddau frawd 'Rhoddi' a 'Derbyn'. Yn ystod y gwasanaeth diolchwyd i Mr Ron Hughes, Bronwen, a'r teulu am y daliwr blodau gwydr hyfryd yn rhodd i'r capel er cof annwyl am Beti.



*Sioned Mai Griffiths, arlunydd buddugol y Cylch Meithrin.*

**At Achos Da:** Am 9 a.m. ddydd Mercher, Hydref 26ain, bydd Christopher Dewi, Tyddyn Difyr, Waun, yn gwthio ei dad, Robert Turner, sy'n gaeth i gadair olwyn, yr holl ffordd o Siop Gron i Fangor. Fe'u noddir gan Comet, Do-it-All, Halfords a Garej Beran. Bydd yr arian yn mynd at Blant Mewn Angen. Y mae blwch casglu yn Siop Gron i'r rhai sy'n dymuno cyfrannu ac fe'i cesglir ar Dachwedd 24ain. Diolchir i bawb am eu cefnogaeth a llongyfarchir Robert a Christopher am y weithgaredd deilwng yma.

**Newyddion o'r Ysgol Gymuned:** Ar ddechrau'r tymor newydd croesawyd naw o blant newydd i'r Ysgol, a bellach mae 71 o enwau ar lyfrau'r Ysgol.

Eto ar ddechrau'r tymor cawsom nifer o ymwelwyr. Yn gyntaf daeth myfyrwraig o wlad Pwyl i dreulio diwrnod yn ein plith; ac yna daeth chwech o fyfyrwyr o Iwerddon ar gyfnod o arsyllu, gan edrych yn arbennig ar ein dulliau o ddysgu trwy'r Gymraeg ac o gyflwyno ailiaith. Gobeithio eu bod wedi mwynhau y profiad o ymweld â'r Ysgol.

Mae'r Cyfeillion yn parhau yn brysur iawn. Trefnwyd i ni gael gosod byrddau gwaith yng nghyntedd y Babanod, ac fe wnaed y gwaith yn gyflwym iawn gan Mr Colin Jones. Mae'r byrddau gwaith yn estyniad gwerthfawr i ddosbarth Mrs Thomas a diolchir i'r Cyfeillion am eu cymorth unwaith eto – ac wrth gwrs diolchwn i Mr Jones.

**Cyfeillion yr Ysgol Gymuned:** Dymuna'r Cyfeillion ddiolch i bawb a gefnogodd gweithgareddau codi arian yn ystod y flwyddyn Medi 93-94. Erbyn hyn cyflwynwyd piano drydan, taflunydd, drwy droli cyfrifiadur, stôf 'Baby Belling', tapiau gwaith, ac anrhegion Nadolig i'r plant.


Eleni cyfrennir tuag at dripiau ysgol ac ychwanegiad at adnoddau cyfrifiadurol.

Mae rhai cardiau Nadolig ar ôl i'w gwerthu am bris gostyngol o £1 y pecyn.

Cynhelir **Ffair Nadolig y Cyfeillion ar Rhagfyr 9fed.**

**Gwellhad buan:** Dyna a ddymunwn i Iwan, Cae'r Bleddyn, sydd newydd ddod adref wedi cyfnod yn yr ysbyty. Brysia wella, Iwan.


Am eich
**ANGHENION ADEILADU**
mawr a bach
**MASNACHWYR A "D.I.Y."**
am
**BRISIAU CYSTADLEUOL**
dewch at
**BRYN**
**(B & K Williams)**



**Yr Hen Ysgol**
**Glanmoelyn**
**LLANRUG**
**Ffôn: 677482**

**Alwyn a Sarah Jones**
**RACCA**
**PENISARWAUN**
★ Blodau ar gyfer pob achlysur
hefyd
★ **Dewis da o Lysiau Fferm.**
★ **Wyau *'Free Range'***
Ar agor saith diwrnod



**870605**
**LLYSIAU AR GYFER PICLO**

# CWM-Y-GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: 872275

**Camera yng ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. Ffôn: 677263**



**Priodas:** Yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis, ar 1af Hydref, priodwyd Nigel, mab Hilda a Les Orritt â Judith, merch Eunice a'r diweddar Dewi Jones, Dakota, Llanberis. Roedd y gwasanaeth yng ngofal y Parchg Idris Thomas, Deon Gwlad Arfon. Y gwas priodas oedd Kevin Owen; y morynion oedd Glenda, Cynthia, Mared a Katy; a'r ystlyswyr oedd Elfyn Griffith a Michael Griffith. Yr organydd oedd Gareth Jones. Addurnwyd yr Eglwys gan Mrs Myra Jones, Llanberis. Cafwyd y Brecwast Priodas yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis. Treuliwyd y mis mêl yn Gran Canaria. Bydd y cwpwl ifanc yn cartrefu yn Llanberis.

**Diolch:** Dymuna Nigel a Judith ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion, arian a chardiau a dderbyniasant ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

**Llongyfarchiadau** i Sandra ac Arwel, 20 Dôl Afon, ar enedigaeth merch, Hayley, chwaer fach i Heather.

**Adref o'r Ysbyty:** Anfonwn ein cofion gan ddymuno gwellhad llwyr a buan i Mrs Megan Olwen Jones, 21 Dôl Afon, ar ôl derbyn triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Gwynedd.

**Cydymdeimlad:** Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Mr a Mrs Elfed Parry a Martin, Glandŵr, yn eu profedigaeth. Cydymdeimlir hefyd â Mr a Mrs Maldwyn Hughes, 2 Bryn Gro, ar golli chwaer, sef Mrs Beryl Parry, 1 Hafan Elan, Llanrug, gynt o Dôl Afon.

**Yr Urdd:** Daeth yn amser i ailddechrau gweithgareddau'r Urdd am y flwyddyn yma. Nos Lun, Hydref 10, cafodd y plant noson bleserus iawn yn gwneud potiau a gwahanol bethau allan o glai. Anti Cath ac Anti Sue oedd yn gofalu am y noson, a diolchwyd iddynt gan Leigh. Mae croeso i unrhyw blentyn o oedran Blwyddyn 1 i 6 ymuno â ni. Tâl aelodaeth am y flwyddyn yw £3.

**Eglwys Sant Gabriel:** Cynhaliwyd yr Ŵyl Ddiolchgarwch ar y 9fed a'r 10fed o Hydref. Fore Sul bu gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid ac fe weinyddwyd gan y Canon Richard Llywelyn Owen, Llandudno. Nos Lun, y Gosber a'r pregethwr gwadd oedd y Parchg William Lloyd Jones, Abersoch. Diolchir i'r ddwy a ddarllenodd y llithoedd, sef Mrs Gwyneth Roberts a Mrs Hilda Orritt.

Yn Eglwys y Plwyf, Llanrug, ar Fedi 25 a 26. Bore Sul gweinyddwyd y Cymun Bendigaid gan yr Archddiacon Elwyn Roberts. Am 2 o'r gloch cafwyd gwasanaeth y plant ac roeddent yn gwneud eu gwaith yn ardderchog. Ar nos Lun, 26 Medi, cafwyd Gosber a'r pregethwr gwadd oedd y Canon Trevor Owen Evans, Llanfairpwll.

Yr organydd yn y gwasanaethau oedd Mr John Morris, Llanrug, a diolchir iddo am ei wasanaeth. Dymuna y Wardeiniaid y ddwy Eglwys ddiolch i bawb am addurno'r eglwysi, ac am y rhoddion o lysiau, ffrwythau a'r blodau hardd a dderbyniwyd.

**Bingo:** Dyna a gynhaliwyd yn yr Ysgol Gymuned ar nos Fawrth, 11 Hydref, a'r elw tuag at Eglwys Sant Gabriel. Diolch yn fawr i Mrs Margaret Williams, Bryn, am alw'r rhifau ar fyr rybudd. Cafwyd noson dda iawn.

Enillwyr y raffl fewn oedd: Siân Jones, 2 Dôl Afon; Karen Ffoulkes, 3 Bryn Terrace; Helen Williams, 34 Bro Rhythallt; Veronica Williams, Glan-bogelyn; Arwyn Jones, Isfryn; Betty Jones, Bro Rhythallt; Andrew Jones, 4 Dôl Afon; Chatherine Ffoulkes, 3 Bryn Terrace; Hilda Orritt, Morannedd; Margaret Williams, Nant Forgan; Ted Roberts, Bod Gwilym; Siân Jones, 1 Dôl Afon; Viv Jones, 9 Dôl Afon; Maggie Parry, 38 Bro Rhythallt; Keith Williams, Bryn. Enillwyr y raffl fawr oedd – Derek Roberts, 50 Maes Padarn, Llanberis; Esme Jones, 24 Dôl Afon; Jean Hughes, 2 Bryn Gro; Meira Williams, Goleufryn; Julie Jones, 8 Dôl Afon; Audrey McLellan, Bryn Awelon; Mary Roberts, Tyn-y-ffridd; Eryl Jones, Tal-y-bont, Llanrug; Bethan Hughes, 17 Dôl Afon; Eurwyn Williams, Llwyncoed; Karah, 2 Stryd Llyn, Caernarfon; Mari Boyle, Gwasanaeth Gyrfaoedd Gwynedd; Jill Callaghan, Llys-y-gwynt. Enillydd y raffl ar wahân oedd Mr Ted Roberts, Bod Gwilym.

**Undeb y Mamau:** Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor yn Hafan Elan, Llanrug, ar nos Fercher, 5 Hydref. Gweinyddwyd y Cymun Bendigaid gan Gaplan Undeb y Mamau, y Parchg Wyn Roberts, Bangor. Ar ôl y gwasanaeth trafodwyd rhai materion gan Mrs E. Taylor. Cafwyd ymddiheuriadau oddi wrth Mrs J. Side, Mrs Craven, Mrs Thomas a Mrs D. Jones. Yn dilyn cafwyd sgwrs ddiddorol gan y Parchg Wyn Roberts am ei ymweliad â Tŷ Mary Sumner yn Llundain. Mwynhawyd ei sgwrs yn fawr iawn. Yn gofalu am y baned roedd Mrs E. Taylor a Mrs J. Ransome, a diolchwyd iddynt ac i'r Parchg Wyn Roberts gan Mrs S. Birbeck. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Taylor ac fe'i henillwyd gan Mrs Birbeck. Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Lun, Tachwedd 7.



*Rachel Owen a John Callahan — cynllunwyr cardiau Nadolig yr Ysgol.*

**Newyddion o Ysgol Cwm-y-glo:** Enillydd gwobr gyntaf Clwb yr Ysgol am fis Medi oedd Wendy Smith, Bro Rhythallt, Llanrug. Aeth yr ail wobr i Terry Williams, Bryn, Cwm-y-glo.

Croeso mawr i Hayley, sef chwaer fach newydd sbon i Heather Hughes, blwyddyn 0. Dymuniadau gorau a llongyfarchiadau i chwi fel teulu.

Bydd gennym gardiau Nadolig ar werth yn yr ysgol ar ôl gwyliau'r Diolchgarwch. Mae dau fach o gerdyn yn y pecyn — un gan John Callahan o Adran y Babanod a'r llall gan Rachel Owen o'r Adran Iau. Cymdeithas Rhieni/Athrawon yr Ysgol sy'n trefnu'r gwerthiant gyda'r elw'n mynd i Gronfa'r Ysgol.

Mewn pwyllgor o'r Gymdeithas hon fe drefnwyd nifer o weithgareddau rhwng rŵan a'r Nadolig. Bydd disgo, bingo, noson o garolau, a pharti Nadolig arbennig. Rydym fel Ysgol yn gwerthfawrogi ymdrechion y rhieni hyn i godi arian yn gyson fel hyn. O ganlyniad i'w llafur caled mae plant yr Ysgol yn elwa'n aruthrol.

Bydd Gwasanaeth Diolchgarwch yr Ysgol bnawn Gwener, Hydref 21, am 2.15 o'r gloch. Mae croeso i chwi rieni, teulu a ffrindiau ymuno gyda ni. Gwneir casgliad tuag at yr NSPCC.

**Diolch:** Dymuna Mrs Megan jones, 21 Dôl Afon, ddiolch o galon i'w theulu a'i ffrindiau am yr holl gardiau, blodau, ffrwythau ac anrhegion a dderbyniodd tra yn cael llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd ac hefyd am y galwadau ffôn tra bu yn nhŷ Llinos a'r teulu yng Nghaernarfon wedi iddi ddod o'r ysbyty.

**TRANC CLWB 'POBL Y CWM'**

**Hwyliog a gwresog groeso — yno gaed**<br>
**A gwir aelwyd gryno,**<br>
**A hen frîd gwerin y Fro**<br>
**Yn llon ymgynnull yno.**

**Dydd yr ymgomio diddan — a ballodd,**<br>
**A bellach mae cwynfan**<br>
**Na fydd yn cyrchu i'r fan**<br>
**Yr henoed gwâr eu hanian.**

**Hydref 1994** — **Robert Henry Parry**


**Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol**



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR.** Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
**CHWI** yn ei yrru,
o Audi i Zastava

MOT — AA Specialist — RAC Selected — Retail Motor Industry Federation

GEMINI SERVICE CENTRE

Car neu Fan
Petrol neu Disel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth ni yn arbed £ £ £ ichwi ac yn ymestyn oes eich car

AVW — YSTAD CIBYN — CAERNARFON (0286) 673559 — BOSCH SERVICE



**AM FFENESTRI, DRYSAU A STAFELLOEDD HAUL UPVC, PREN CALED AC ALWMINIWM**

**FFENESTRI CELTAIDD**
**(CELTIC WINDOWS)**

**2 TAN Y BRYN, BETHEL** — NHBC

★ Gwydro Dwbl a Sengl
★ Gwaith Domestig a Chontract
★ Gwarant 10 mlynedd
★ Amcangyfrif prisiau yn rhad ac am ddim



Federation of Master Builders

**CYMHARWCH EIN PRISIAU CYSTADLEUOL NI CYN PRYNU!**

**FFONIWCH (0286) 671181 NEU (0831) 326160**

# DINORWIG

Glyn Tomos, Pen y Bwlch, Ffôn: 870576

**Camera yng ngofal Glyn Gruffydd, Cynfi, Deiniolen. Ffôn: 870394**




*Ffyddloniaid Eglwys St. Mair, Dinorwig, dros y blynyddoedd diwethaf gyda'r Parchedig Tegid Roberts, Clerig mewn gofal.*

**Pob dymuniad da** i Olwen Roberts, Tŷ'r Ysgol, sydd yn priodi ag Alun Hughes o Amlwch, ar ddydd Sadwrn, Hydref 22ain, yng Nghapel Dinorwig. Dros y blynyddoedd rydym fel pentref wedi bod yn ffodus iawn o gael person mor hawddgar ac Olwen fel un sydd wedi bod mor barod ei chymwynas a'i chefnogaeth beth bynnag fyddai'r achlysur i fywyd diwylliannol, cymdeithasol a chrefyddol y fro. Os oedd angen rhywun wrth y piano neu'r organ byddai Olwen yn gwneud hynny yn ddiffwdan a di-stwr gyda gwên ar ei hwyneb bob amser. Yn sicr bydd pobl Amlwch ar eu hennill o gael Olwen yn byw yn eu mysg. Dymunwn pob hapusrwydd iddi hi ac Alun yn eu bywyd priodasol.

**Gwellhad Buan:** Dyna a ddymunwn i Alwyn Jones, 5 Bro Elidir, a John Peris Roberts, 11 Maes Eilian, sydd ddim yn mwynhau iechyd da yn ddiweddar.

# NANT PERIS

Elwyn Searell Jones, Dwyfor Ffôn: 870440

**Camera yng ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390**



*Dyma'r olygfa sy'n wynebu teithwyr i lawr Bwlch Llanberis y dyddiau yma. I ble'r aeth y garreg 'croeso'? A yw'r croeso yr un mor dwymgalon i deithwyr y dyddiau yma?*

**Diolch:** Dymuna Alan Pritchard, Llys Awel, ddiolch i bawb am eu cyfarchion a'u caredigrwydd ar achlysur dathlu ei ben-blwydd yn un ar hugain oed.

**Gwellhad buan:** Gobeithiwn y bydd Samantha Griffiths, 2 Bro Glyder, yn gwella yn fuan wedi ei arhosiad yn Ysbyty Gwynedd.

**Llongyfarchiadau** i Clare a David Findley, Bron Graig, ar enedigaeth eu merch fach.

**Diolchgarwch:** Cynhaliwyd Gŵyl Ddiolchgarwch capel Rehoboth ar brynhawn Sul, Hydref 23.

# BETWS GARMON

**Hospis McMillan:** Wedi swper Diolchgarwch Eglwys St. Garmon, a defnydd ystafell gan griw o Deras Gwyrfai, fe gasglwyd swm o £16.20 a £20 a rhoddwyd y cyfanswm o £†36.20 i Uned Gofal McMillan Ysbyty Bryn Seiont, Caernarfon, gan Barc Carafannau Bryn Gloch.

# CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna
679501 (gwaith); 677438 (cartef)

**LLongyfarchiadau** i Tom Evison, Cae Hopsyn, a Geraint Roberts, Cefn Rhos Isaf, ar gael eu dewis yn brif ddisgyblion Ysgol Bontnewydd am eleni.

**Gwasanaethau'r Sul:** Disgwylir y canlynol i wasanaethu yn ystod yr wythnosau nesaf,

Tachwedd:
6 Gweinidog 2.00
13 Parchg Emrys Thomas 2.00
20 Gweinidog 2.00
27 Mr Glyn Owen, Glanrhyd 2.00

Rhagfyr:
4 Gweinidog 2.00
11 Parchg H. John Huws 2.00

**Partïon Nadolig:** Cynhelir parti Nadolig oedolion y pentref yng Nglangwna ar nos Sadwrn, 17 Rhagfyr; a pharti'r plant yr ysgol gynradd, a iau, ar brynhawn dydd Iau, 22 Rhagfyr. Ceir mwy o fanylion maes o law.

**Plygu'r Eco:** Braint trigolion Caeathro yw plygu rhifyn Rhagfyr o'r Eco. Cynhelir y noson fawr ar nos Iau, 1af o Ragfyr am 7 o'r gloch ymlaen, yn y Festri. Croeso i bawb – o bob oed – darperir danteithion tymhorol!

**Marwolaeth:** Yn anaml y sonir am farwolaeth Sais yn yr Eco, ond roedd y diweddar Patrick (Paddy) Atkinson, Cefn Gof, yn gefnogol iawn i ymdrechion Cymreig a Chymraeg y penrtref. Pe bai rhaid codi arian at achos da gellid dibynnu ar adnoddau Cefn Gof – Paddy a'r teulu a'r fferm. Mae'r plant yn rhugl eu Cymraeg – Shaun a Margot. Cydymdeimlwn â hwy fel teulu. Bydd y pentref yn llawer rhy dawel heb y llais o Swydd Suffolk.

# CANLYNIADAU EISTEDDFOD BENTREF LLANRUG

Cynhaliwyd Eisteddfod Bentref Llanrug, nos Wener, Hydref 14, yn Ysgol Uwchradd Brynrefail.

Y Beirniaid oedd –

Cerdd a Cherdd Dant: Mrs Deilwen Hughes.
Adrodd: Mrs Madge Huws.
Barddoniaeth a Rhyddiaith: Y Prifardd Ieuan Wyn.
Dawns: Mrs Ann Roberts.
Coginio, Gosod Blodau a Thecstiliau: Mrs Judith Harding.
Arlunio a Thri Dimensiwn: Mr Dilwyn Jones.
Ffotograffiaeth: Mr Bryn Jones.
Y cyfeilydd oedd Mr Tim Ward.

**CYSTADLAETHAU LLWYFAN:**
**Unawd Dosbarth Derbyn:** 1, Gemma; 2, Lowri. **Adrodd Dosbarth Derbyn:** 1, Lowri; 2, Dewi; 3, Carwyn a Jemma. **Unawd Cyn Oedran Ysgol:** 1, Beverley; 2, Ruth; 3, Declan. **Adrodd Cyn Oedran Ysgol:** 1, Declan; 2, Beverley; 3, Declan. **Unawd Blwyddyn 1 a 2:** 1, Debbie; 2, Ifan; 3, Elin. **Adrodd Blwyddyn 1 a 2:** 1, Debbie; 2, Megan; 3, Elin. **Unawd Blwyddyn 3 a 4:** 1, Lyndsey; 2, Natalie; 3, Guto. **Adrodd Blwyddyn 3 a 4:** 1, Natalie; 2, Gareth; 3, Guto. **Unawd Piano Blwyddyn 3 a 4:** 1, Geraint; 2, Natalie; 3, Rhian. **Unawd Blwyddyn 5 a 6:** 1, Sioned. **Adrodd Blwddyn 5 a 6:** 1, Siôn Emyr; 2, Sioned ac Iwan. **Unawd ar Unrhyw Offeryn Pres i Oedran Ysgol Cynradd:** 1, Dona; 2, Robin a Siôn Emyr; 3, Siôn Rhys ac Iwan. **Parti Dawns Werin i Oedran Ysgol Gynradd:** 1, Parti Geraint a Karen; 2, Parti Gari a Sioned; 3, Parti Lyndesey a Daniel; Parti Donna a Sionwyn. **Unawd Cerdd Dant Blwyddyn 7-11:** 1, Michelle. **Blwyddyn 12 a throsodd:** 1, Rolant. **Unawd Piano Blwyddyn 5 a 6:** 1, Sioned; 2, Llio; 3, Siôn Emyr. **Cyflwyniad Llafar Difrif:** 1, Merched Becca. **Parti Unsain i Oedran Ysgol Cynradd:** 1, Parti Siôn Emyr; 2, Parti Dafydd. **Dawns Fodern:** 1, Parti Sws. **Unawd:** 1, Michelle; 2, Siân. **Adrodd Unigol:** 1, Michelle; 2, Elin. **Grŵp Offerynnol:** 1, Grŵp Hŷn; 2, Tywod ar y llawr. **Siarad Cyhoeddus:** 1, Michelle; 2, Gwion. **Unawd Piano i Oedran Blwyddyn 7-11:** 1, Iona; 2, Michelle; 3, Siân a Rhian. **Unawd Cân Werin:** 1, Michelle. **Grŵp Cân Werin:** 1, Merched y Nos; 2, Meibion y Machlud. **Unawd ar Unrhyw Offeryn heblaw'r Piano i Blwyddyn 7-11:** 1, Michelle; 2, Gwion. **Emyn i raid dros 50:** Menna. **Cyflwyniad Llafar Digrif:** Oedran cynradd 1, Parti Mrs Roberts. Blwyddyn 7-11: 1, Parti 'Y Gwrandawiad'; 2, Parti 'Syrjeri'; 3, 'Gloria'. **Cyflwyniad Cerddorol Lleisiol:** 1, Merched y Nos; 2, Meibion y Machlud. **Cadair Lowri:** Debbie. **Cwpan Emma Bernard:** Dion Siôn Owen. **Raffl:** Siân Green.

**CELF A CHREFFT:**
**Gwnïo, Blwyddyn 3 a 4:** 1, Huw Mackinnon; 2, Huw Mackinnon; 3, Ellen Williams a Gareth Roberts. **Blwyddyn 5 a 6:** 1, Bethan Mackinnon. **Blwyddyn 9 a 10:** 1, Emma Lloyd Davies. **Agored:** 1, Eluned Mai Jones. **Gwau, Crosio neu Wehyddu, Agored:** 1, Eirianwen Thomas; 2, Yvonne Pitts; 3, Elizabeth Roberts.

**COGINIO**
**Blwyddyn 1 a 2:** 1, Meilyr Siôn Owen; 2, Angharad Griffith a Fiona Pitts; 3, Ffion Haf, Llinos Catrin Roberts ac Ifan Dafydd. **Blwyddyn 3 a 4:** 1, Guto Rhun; 2, Ellen Williams; 3, Guto Wynn a Gareth Roberts. **Blwyddyn 5 a 6** 1, Gemma Jones a Siôn Emyr; 2, Iwan Rhys a Bethan Mackinnon; 3, Iwan P. Jones a Gemma Louise Jones. **Blwyddyn 7 ac 8:** 1, Hefin Roberts; 2, Meleri Griffith a Nicola Edwards; 3, Siân Green. **Blwyddyn 9 a 10:** 1, Emma Lloyd Davies. **Blwyddyn 11 a 12:** 1, Ieuan Green. **Agored (Merched):** 1, Carys Wynne; 2, Eirianwen Thomas. **Agored (Dynion):** 1, Michael Blanchard; 2, Dafydd Whiteside Thomas; 3, Rolant Wynne; 4, Rolant Wynne. **Agored (caws lemwn):** 1, Pat Jones. **Agored (picl):** Carys Wynne.

**GWIN**
**Agored:** 1, 2 a 3: Brian Cook.

**GOSOD BLODAU**
**Agored:** 1, Sally Lloyd Davies; 2, Judy Roberts; 3, Andrea, Awen, Lisa.

**TRI DIMENSIWN**
**Cyn Oedran Ysgol a Dosbarth Derbyn:** 1, Aled Rhys Williams; 2, Declan Jones; 3, Ffion Angharad Williams. **Blwyddyn 1 a 2:** 1, Ffion Haf; 2, Meilyr Owen; 3, Ifan Dafydd a Fiona Pitts. **Blwyddyn 3 a 4:** 1, Celfyn Edwards; 2, Mark Pitts a Guto Rhun; 3, Huw Mackinnon. **Blwyddyn 5 a 6:** 1, Sioned Wyn Jones ac Iwan Rhys; 2, Bethan Mackinnon a Dion Siôn Owen; 3, Iwan Jones. **Blwyddyn 7 ac 8:** 1, Nicola Edwards; 2, Ceri Jones. **Blwyddyn 9 a 10:** 1, Emma Lloyd Davies.

**ARLUNIO**
**Oedran Ysgol Feithrin:** 1, Beverley Hughes; 2, Siôn Eifion Jones; 3, Lois Angharad, Nia Fflur Jones a Ruth Mowll. **Blwyddyn 1 a 2:** 1, Fflur A. Griffith a Dafydd Meredydd Williams; 2, Ifan Dafydd; 3, Meilir Siôn Owen. **Blwyddyn 3 a 4:** 1, Natalia Blanchard; 2, Guto Rhun; 3, Celfyn Edwards. **Blwyddyn 5 a 6:** 1, Dion Siôn Owen; 2, Siôn Rhys; 3, Siôn Emyr a Nia Williams. **Blwyddyn 7 ac 8:** 1, Meleri Griffith; 2, Gwenno Williams; 3, Ceri Jones a Siân Green. **Agored:** 1, Sharon Blanchard.

**FFOTOGRAFFIAETH**
**Oedran Ysgol Cynradd:** 1, Ifan Dafydd a Mark Pitts; 2, Natalie Blanchard; 3, Nia Williams a Meilyr Siôn Owen. **Oedran Ysgol Uwchradd:** 1 a 2, Elin Dafydd. **Agored:** 1, Anwen Owen a Michael Blanchard; 2, Malcolm Pitts.

**RHYDDIAITH**
**Blwyddyn 3 a 4:** 1, Geraint Iwan; 2, Eifion Williams; 3, Ceri Meredydd Williams. **Blwyddyn 5 a 6:** 1, Nia Williams; 2, Iwan P. Jones; 3, Anthea Davies. **Blwyddyn 7 ac 8:** 1, Ceri Jones; 2, Awen Humphreys; 3, Siân Green. **Blwyddyn 9 a 10:** 1, Delyth Humphreys; 2, Emma Davies; 3, Delyth Humphreys.

**BARDDONIAETH**
**Blwyddyn 3 a 4:** 1, Ceri Meredydd Williams; 2, Guto Rhun. **Blwyddyn 5 a 6:** 1, Nia Williams; 2, Siôn Emyr. **Blwyddyn 7 ac 8:** 1, Steffan Evans; 2, Ceri Jones; 3, Gwenno Williams. **Blwyddyn 9 a 10:** 1, Emma Davies; 2, Kelly Roberts.

**ERTHYGL:** 1, Dafydd Whiteside Thomas.
**LIMRIG:** 1, 2 a 3: Rolant Wynne
**CERDD:** 1, Carys Wynne
**PARODI:** 1 a 2, Rolant Wynne; 3, Carys Wynne.
**CREU BRAWDDEG:** 1, Gwenda Roberts; 2, Iwan Roberts; 3, Carys Wynne.
**DROS 60:** 1, Mr Robat Williams, Llain Gwta; 2, Mrs Whiteside Thomas, Dolwar; 3, Mrs Gwladys M. Jones, Dalar Deg.
**LLINELL GOLL:** 1, Gwyndaf Jones; 2, Gareth Jones; 3, Dafydd Whiteside Thomas.


**CADAIR YR EISTEDDFOD**
**Dafydd Whiteside Thomas**

**TLWS YR IFANC**
**Ceri A. Jones**



*Debbie, enillydd Cadair Lowri am yr Unawd Blwyddyn 5 a 6.*

# CROESAIR TACHWEDD



**AR DRAWS**

1. Bwriadu paratoi i'r wasg (6)
4. Mae rhywun wrth ei fodd yn y stad yma (5)
8. Mae'n rhan o gartre Len i fyw ynddo, rŵan (5)
9. Darnau hir, cul, sydd o ddefnydd (7)
10. Modur a chi'r Sais sydd â chysylltiad ganddynt â Dyffryn Ogwen (7)
11. Glanhau (4)
12. Daw'r blaned hon yn ddyddiol o flaen yr agosaf at y Ddaear (3)
14. Yr egni a ddw o belydryn niwclear (4)
15. Mynydd yng ngwlad Iorddonen ac ar ochr mynydd yng Nghymru (4)
18. Fel hyn y rho'r Sais yn anrheg (3)
21. Had yn cynnwys starts (4)
23. Dyma'r moddion i wneud i ddau wella (7)
25. Ysbail (7)
26. Baeddu (5)
27. Coes un sy'n rhan o'r gymdeithas? (5)
28. Arthur, y teyrn (6)

**I LAWR**

1. Mae'r ferch a'i chi yn byw drwy fwyta anifeiliaid eraill (6)
2. Tro Elan i sefyllian o gwmpas (7)
3. Mynd yn gyflym? Efallai, ond mae'n dibynnu ar y cludiant (8)
4. Gwella neu hyrwyddo (4)
5. Waldio rhywun er mwyn ei lanhau! (5)
6. Yma y byddwn yn rhoi ein prydau bwyd (6)
7. Hen ddull Prydeinig o ladd am ladd (5)
13. Ar eu pen eu hunain y bydd dwy'r Waun yn perfformio (8)
16. Carreg goffa (7)
17. Lle i fyw **(gweler y nodiadau)** (6)
19. Gyrru o arf — fel a wna'r chwarelwr (5)
20. Pan mae'r utgorn yn malu, mae'n offeryn arall, tebyg i gitâr (6)
22. Oerllyd, ond gwefreiddiol er hynny (5)
24. Cenfaint y Sais yn cuddio (4)

## CROESAIR HYDREF




Derbyniwyd tri ar ddeg o atebion i groesair mis Hydref, a bu cryn feddwl, rwy'n siŵr, gan bob un ohonynt am gliw i'r gair PUMP. Aeth nifer ar ôl y ffaith mai dyma'r cyfeithiad Saesneg am BWMP; eraill yn cyfeirio at bentref Llanpumsaint; y cysylltiadau Beiblaidd â phum torth; pump doeth; y ffordd A5 oedd y trywydd a ddilynwyd gan eraill; ac un neu ddau yn cyfeirio at hanner deg. Mae *'Cwlwm serch? Choelia'i fawr!'* yn apelio ataf (dwrn, mae'n debyg), ond y rhai a aeth â'm bryd oedd au a gyfeiria at y ffaith fod 'p' yn golygu distaw mewn cerddoriaeth.

*'Rhif distaw sy'n troi yn aelod seneddol o Sais'* oedd cynnig Dilys A. Pritchard-jones, Abererch; ond gan **Mrs Nancy Jones, Taliesin, Preswylfa, Llanberis**, y daeth yr enillydd, sef: *'Undeb y Mamau yn ddistaw iawn'*. Iddi hi yr aeth y wobr y tro yma gyda llongyfarchiadau i Nansi Davies, Rhuthun, perchen y 'Cwlwm serch'. Dyma weddill yr ymgeiswyr: V. Roberts, Caernarfon; E. E. Jones, Rhoshirwaun; E. W. Pritchard, Garndolbenmaen; Mair Foulkes, Penisarwaun; Mrs J. Hughes, Llanberis; Catherine Jones, Rhiw; Mair E. Jones, Pwllheli; Jean Hughes-Jones, Rhiw; William Elfed Evans, Bethesda; ac Iorwerth a Joan Williams, Caernarfon.

Rhowch gynnig y mis yma ar lunio cliw i 17 i lawr, a'r atebion i **Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, erbyn Tachwedd 21**, os gwelwch yn dda.


Cefnogwch ein Hysbysebwyr


# *Dyddiadur y Mis*

| | |
|---|---|
| **1. Mawrth** | **PENISARWAUN:** Yr Urdd yn ailddecrhau. |
| **3. Iau** | **BETHEL:** Cystadlaethau dawnsio disgo, a dawnsio gwerin yn y Neuadd Goffa am 6.30 o'r gloch. |
| | **CAERNARFON:** Ffair Hydref at Apêl Ymchwil y Galon, yng Ngwesty'r Royal am 7 o'r gloch. |
| **4. Gwener** | **BETHEL:** Eisteddfod y Pentref yn y Neuadd Goffa am 6 o'r gloch. |
| | **GLYNLLIFON:** Aduniad cyn-fyfyrwyr Madryn a Glynllifon am 7.30 o'r gloch. |
| **5. Sadwrn** | **WAUNFAWR:** Noson Tân Gwyllt ar Gae'r Ganolfan am 6 o'r gloch. |
| **7. Llun** | **CWM-Y-GLO:** Undeb y Mamau. |
| **8. Mawrth** | **LLANRUG:** Merched y Wawr — 'Coluro' gydag Angela. |
| **9. Mercher** | **PENISARWAUN:** Plaid Cymru — sgwrs gan y Barnwr Dewi Watkin Powell, am 7.30 o'r gloch yn y Ganolfan. |
| **14. Llun** | **LLANRUG:** Cyfarfod Blynyddol yr Eisteddfod yn Festri Pontrhythallt am 6.30 o'r gloch. |
| **16. Mercher** | **DEINIOLEN:** Merched y Wawr — ymweliad â Siop Cae Coch, Llanberis. |
| **17. Iau** | **DEINIOLEN:** Cyfarfod y Chwiorydd, Ebeneser. |
| **21. Llun** | **WAUNFAWR:** Y Gymdeithas Lenyddol yn y Ganolfan am 7.30 o'r gloch — sgwrs gan y Barnwr Dewi Wakin Powell. |
| | **BRYNREFAIL:** Sefydliad y Merched — Cyfarfod Blynyddol. |
| **24. Iau** | **LLANRUG:** Cymdeithas y Chwiorydd yn Festri'r Bont am 7. |
| **25. Gwener** | **PENISARWAUN:** Yr Eisteddfod Bentref am 6 o'r gloch. |
| **28. Llun** | **DEINIOLEN:** Y Gymdeithas Lenyddol — sgwrs gan Mrs Moreen Lennon. |

**RHAGHYSBYSIADAU MIS RHAGFYR**

| | |
|---|---|
| **2. Gwener** | **DEINIOLEN:** Ffair Nadolig Plaid Cymru. |

## RHODDION

£10

**Clwb Ffermwyr Ifaninc, Caernarfon; Teulu Hedsor Villa, Llanrug.**

£8

**Mr a Mrs H. Vaughan Evans, 3 Dinorwig Terrace, Clwt-y-bont.**

£5

**Morfudd ac Ieuan Ellis Jones, Erw'r Coed, Coed y Glyn, Llanberis; Alwen T. Jones, 12 Rhydfadog, Deiniolen; Mrs E. lynes, Snowdon View, Fachwen; Myfanwy Jones, Llys Eryri, Llanberis; Elizabeth (Bessie) Roberts, 10 Stryd Turner, Llanberis; Eifion a Gwyneth, Becws Eryri, Llanberis; Alwyn ac Iola Owen, 3 Stryd y Wyddfa, Llanberis; Mr a Mrs John Elwyn Roberts, 24 Bro Waun, Waunfawr; Megan Olwen Jones, 21 Dôl Afon, Cwm-y-glo.**

£3

**Nellie Morris, 76 Maes Padarn, Llanberis; Mrs L. Evans, Tegfan, Waunfawr.**

£2

**Mr W. O. Williams, 6 Rhydfadog, Deiniolen; Mrs Ray Hughes, Manchester House, Waunfawr.**


TRIN GWALLT YN EICH CARTREF
MERCHED ★ DYNION ★ PLANT
*y Lynette Evans*
GARNET, LLANRUG
Ffôn: 673981/675807



LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR
Ffôn/ffacs: 650291

Ar Agor
9-7pm
9-5pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher



Dewis eang o Welyau a '3P/Suites'.
Lleni 'Venetian' a Llenni 'Roler'
5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc – allwch chi fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

# CHWARAEON

## A PHWY YW'R MEISTR?

Cafodd ardaloedd difreintiedig Arfon, yn cynnwys hen ardal y chwareli, gryn sylw yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Cafwyd grantiau o Ewrop, a rhaid canmol Cyngor Arfon am geisio datganoli adnoddau. Cafodd Bethesda gae pob tywydd, a chafodd Pen-y-groes gae tebyg a Neuadd Chwaraeon. Mae'n ymddangos bod cynlluniau ar y gweill i ddatblygu rhan o gaeau Ysgol Brynrefail.

Mae'n ddiddorol felly sylwi ar gae pêl-droed newydd Deiniolen. Mae'n gaffaeliad i'r ardal ac i'r Clwb lleol sy'n talu £20 y gêm am ddefnyddio'r cae. Ond rhaid cofio mai Cyngor Arfon sydd piau'r cae; cae pêl-droed Cyngor Arfon ydyw, wedi ei leoli yn Neiniolen. Yn naturiol mae'n gae chwarae i blant yr ardal, a bydd gêmau cynghrair arno ar bnawn Sadwrn. Ond sut bydd modd sicrhau na fydd gor-ddefnydd ohono? Mae'n ymddangos ar hyn o bryd y gall unrhyw glwb logi'r maes. Eisoes cafwyd cwyno yn lleol ynglŷn â gemau rhwng timau dieithr ar y Sul, er ei bod yn ymddangos i'r broblem honno gael ei setlo. Beth tybed fydd yn digwydd yn ystod yr haf? Mae mwy a mwy o dimau Cynghrair yr Haf yn Arfon, ac os ceir gormod o gemau ar y cae, bydd yn siŵr o ddirywio'n gyflym.

A beth am Glwb Deiniolen? Os bydd am symud i Gynghrair Gwynedd bydd yn cystadlu mewn rhagor o gystadlaethau'r Coast FA. Mae dyddiau pendant ar gyfer y rheiny. Beth pe na bai'r cae ar gael? A phwy sydd i benderfynu os yw'r cae yn addas i chwarae arno? A yw Cyngor Arfon am fynnu bod rhaid chwarae nifer penodol o gêmau ar y cae er mwyn adennill cymaint o arian ag sydd bosibl? A beth os byddai'r Clwb lleol am wella'r maes trwy, er enghraifft, gael cysgodfan i'r cefnogwyr?

A yw Deiniolen wedi gwir elwa? Oni fyddai'n rhesymol cael pwyllgor lleol a fyddai, wrth gwrs, yn cydweithio'n agos â Chyngor Arfon, i reoli'r defnydd a wneir o'r cae?

## GWNEUD SBLASH



Bu Eifion Williams o Lanrug yn arbennig o lwyddiannus mewn Gala Nofio yn Nhreffynnon yn ddiweddar gan iddo ennill medal arian a dwy fedal efydd. Wyth oed ydi Eifio, ac mae'n braf gweld rhai mor ifanc yn dod a chlod i'r ardal.


## PENBLWYDD I'W GOFIO

Cafodd Dylan Hughes o Stad Eryri, Bethel, ddiwrnod i'w gofio ar ei ben-blwydd yn un ar ddeg oed. Trefnodd ei dad drip iddo i weld ei hoff dîm Manchester City yn chwarae gartref yn Main Road yn erbyn Nottingham Forest. Cafwyd clincar o gêm, efo sgôr terfynol o 3-3. Bydd Dylan yn gobeithio chwarae cystal â'r sêr i dîm dan un ar ddeg Bethel! Cafodd gyfarfod rhai o chwaraewyr City cyn y gêm, yn cynnwys chwaraewyr rhyngwladol Iwerddon, Terry Phelan a Niall Quinn, a'r ddau gôl-geidwad, Tony Coton a'r Cymro Andrew Dibble. Cafodd grys pêl-droed newydd sbon i ddod adref hefo fo.



*Dylan gyda Terry Phelan yn ystafell newid Maine Road.*

## CAEL CIC O GYSTADLU



*Sara Salisbury Roberts gyda'r tlws a enillodd yn Llundain.*

Yn ystod mis Hydref teithiodd Sara Salisbury Roberts o Dan y Coed, Llanrug, i Lundain i gystadlu ym Mhencampwriaethau Karate Cenedlaethol Agored Prydain. Cynhaliwyd yr ornest yn y Waterfront Centre ar lannau'r Tafwys, a daeth Sara yn drydydd yn y gystadleuaeth Kata agored.

Mae'n cael ei hyfforddi gan Sensei John Lynn (5ed Dan) o Glwb Kokoro Karate, y Rhyl. Dros fisoedd y gaeaf bydd Sara yn paratoi ar gyfer ei graddio i radd Dan ym mis Mawrth 1995.

**Oes yna rywbeth o fyd y campau wedi eu trefnu ar gyfer y 'Dolig? Gadewch i ni wybod.**

## WEDI'R HOLL DREIALON . . .



Un o'r pethau anoddaf i gyw o golofnydd fel fi ei wneud yw sgwennu am blentyn sy'n dangos dawn arbennig mewn rhyw gamp neu'i gilydd. Rhaid gofalu peidio gor ganmol wrth geisio rhoi pwt o anogaeth. Onid oes amryw o'r fro a fu ar dreial hefo Wolves neu Wrecsam neu glwb arall? Rhaid cofio mai canran fechan iawn o'r miloedd sy'n cael treial bob blwyddyn sy'n cyrraedd y brig. Rwy'n amheus o'r drefn sy'n peri bod plentyn a fynychodd 'glinigau pêl-droed' yn 'arwyddo' i ryw glwb neilltuol. Onid yw'n well o lawer i blentyn gael ymweld ag unrhyw glwb a fynn ei wahodd am dreial? Rwy'n meddwl weithiau bod rhai o'n chwaraewyr ifanc yn tybio bod Lerpwl neu Man-U am ddod ar eu hôl. Rhaid i bob sgowt fod yn ofalus iawn nad yw'n addo'r byd i gyd i fachgen ifanc. Cyfeiriaf yn aml at achos Wayne Phillips. Mynd i glwb 'llai' fel Wrecsam wnaeth Wayne, ond mae wedi chwarae dros 100 o gêmau cynghrair a chael profiadau fel ennill yn erbyn Arsenal a sgorio yn erbyn West Ham. Nid 'breuddwyd' mo hynny, ond ffaith.

Dechrau dringo'r ysgol yn y byd pêl-droed y mae Eifion Jones o Lanrug, sy'n ddisgybl blwyddyn 9 yn Ysgol Brynrefail. Mae'n cynrychioli timau dan 14 oed a than 15 oed ysgolion Arfon, ac yn chwarae yng nghanol yr amddiffyn, lle mae ei daldra yn amlwg o fantais iddo. Cafodd ei ddewis hefyd i dîm Gwynedd i chwarae yn erbyn Clwyd, ac i dîm Gogledd Cymru a enillodd 4-2 yn erbyn Ysgolion Lerpwl.

Gwelais Eifion yn chwarae sawl tro er pan welais ef gyntaf yng nghystadleuaeth Tlws yr Eco. Roeddwn yn dyfarnu'r gêm rhwng Ysgolion Arfon a Kirkby yn ddiweddar, ac Eifion oedd seren tîm Arfon ym marn rheolwr Kirkby. Gellir dweud dau beth am Eifion: mae ganddo wên ar ei wyneb ac nid yw'n siarad yn ddigywilydd ar gae pêl-droed. Er ei fod flwyddyn yn iau na gweddill y tîm mae'n amlwg fod ei gyd-chwaraewyr yn ei barchu ac yn elwa o'i ymroddiad llwyr i'r gêm. Mae ynddo ddeunydd capten da.

Rwy'n siŵr y bydd yn elwa'n fawr o brofiad ei dad. Mae Howyn yn siŵr o sicrhau bod traed ei fab yn solet ar y ddaear. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Eifion.

**MWY O LUNIAU RAS YR ANTUR AR DUDALEN 15**

## ANTURIAF YMLAEN

Cafwyd cefnogaeth deilwng eto eleni i Ras Antur Waunfawr. Dyma'r nawfed ras i'w chynnal. Roedd rhai o brif redwyr yr ardal ymhlith y 26 oedd yn cystadlu yn y ras fawr a redir dros bellter o 10km. Rhannwyd ras y dynion yn bedair adran: dros 16 oed, dros 40 oed, dros 50 oed a dros 60 oed; a ras y merched yn dair adran: dros 16 oed, dros 35 oed a dros 45 oed. Mae'r niferoedd oedd yn cystadlu yn y gwahanol adrannau yn adlewyrchu'r diddordeb cynyddol sydd mewn athletau yn lleol.

Tegid Roberts (Eryri) oedd enillydd prif ras y dynion. Gwynfor Owen (Eryri) enillodd y ras i rai dros 40 oed. Llwyddodd Rhedwyr Eryri i gipio'r goron drifflyg gan i Francis Uhlman ennill y ras i rai dros 50 oed. Raymond Galley o'r Bear Brook Joggers enillodd y ras i rai dros 60 oed. Enillwyr rasus y merched oedd Rhiannon Tomos, dros 16 oed; Ann Cartwright (Wrecsam) dros 35 oed; a Sue Tregido, dros 45 oed. Mae aerobics Sue yn amlwg yn profi ei werth! Cyflwynwyd tlysau arbennig i Paul Lewis o Antur Waunfawr, yr unig redwr ag anabledd a orffennodd y ras 10km, ac i Paul Jenkinson am fod y rhedwr lleol cyntaf. Dyfarnwyd Cwpan B & K Williams i dîm o 7 rhedwr o Antur Waunfawr. Cafwyd ras hwyl i gloi'r gweithgareddau. Martin Parry (Eryri) oedd yr enillydd. Dymuna pawb sy'n gysylltiedig â'r Antur ddiolch am yr holl gefnogaeth barod a gafwyd wrth drefnu'r ras.



*Tîm yr Antur yn eu ras eu hunain.*